Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol 2023-24

Llais ac eiriolwr annibynnol
ar gyfer pobl hŷn

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn llais ac yn eiriolwr annibynnol ar gyfer pobl hŷn ledled Cymru.

Mae'r Comisiynydd yn gweithredu i diogelu a hyrwyddo hawliau pobl hŷn, rhoi diwedd ar oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oedran, atal cam-drin pobl hŷn, a galluogi pawb i heneiddio'n dda.

Mae'r Comisiynydd yn gweithio i sicrhau Cymru lle mae pobl hŷn yn cael eu gwerthfawrogi, lle mae hawliau'n cael eu cynnal a lle nad oes neb yn cael ei adael ar ôl.

Sut i gysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Ffôn: 03442 640670

E-bost: gofyn@comisiynyddph.cymru
Trydar: @comisiwnphcymru

Gwefan: www.comisiynyddph.cymru

Fformatau Hygyrch

Of hoffech dderbyn y cyhoeddiad hwn mewn fformat arall ac/neu iaith arall, cysylltwch â ni.

Cynnwys

Adroddiad ar Berfformiad

Yn yr Adroddiad ar Berfformiad, rwyf wedi amlinellu fy mlaenoriaethau strategol a'r prif bethau a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Rhagair	04
Fy rôl fel Comisiynydd	06
Fy Ngweledigaeth a'm Gwerthoedd	07
Rhaglen Waith 2022-24	08
Cipolwg ar 2023-24	10
Gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2023-24	13
Adolygiad o gyllid a pherfformiad ariannol	34
Adroddiad ar Gynaliadwyedd	36

Adroddiad Atebolrwydd

Mae fy Adroddiad Atebolrwydd yn amlinellu prif nodweddion y ffordd rwy'n rheoli'r sefydliad ac yn arfer llywodraethu corfforaethol da. Mae'n cynnwys y canlynol:

Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol	37
Datganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu	42
Datganiad Llywodraethu	43
Adroddiad ar Staff a Thaliadau	53
Tystysgrif ac adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd	64

Y Datganiadau Ariannol

Mae'r Datganiadau Ariannol, ochr yn ochr â nodiadau esboniadol ac ategol, yn cynnwys y canlynol:

Datganiadau Ariannol	70
Nodiadau i'r Cyfrifon	74

Rhagair

Wrth ysgrifennu'r adroddiad hwn, fy Adroddiad Effaith a Chyrhaeddiad olaf cyn i mi gamu i lawr fel Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ym mis Awst, rwyf wedi bod yn myfyrio ar brofiadau pobl hŷn yn ystod y 12 mis diwethaf, a'r materion sy'n effeithio ar fywydau pobl hŷn.

Roedd pwysau costau byw yn dal yn uchel am lawer o'r flwyddyn, gan greu anawsterau ariannol i lawer o bobl hŷn a chaledi sylweddol i'r 1 o bob 5 o bobl hŷn sydd bellach yn byw mewn tlodi.

Mae llawer o bobl hŷn hefyd wedi bod yn rhannu pryderon â mi ynghylch sut mae'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus yn effeithio ar eu bywydau, gan adael rhai pobl yn teimlo eu bod wedi'u heithrio ac yn cael eu gadael ar ôl gan nad ydynt yn gallu cael gafael ar y gwasanaethau a'r cymorth y gallai fod eu hangen arnynt. Rydym wedi gallu gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â'r materion hyn drwy weithio gyda'n gilydd a sicrhau bod lleisiau pobl hŷn yn cael eu clywed.

Er enghraifft, ym mis Mawrth, croesewais Gynllun Gweithredu Cenedlaethol Llywodraeth Cymru i Atal Cam-drin Pobl Hŷn, y cyntaf o'i fath yn y DU, yr oeddwn wedi galw amdano i helpu i amddiffyn yn well y miloedd o bobl hŷn yng Nghymru sy'n cael eu cam-drin neu sydd mewn perygl o gael eu cam-drin.

Hefyd, symudodd Cymru yn nes at fod yn genedl oed-gyfeillgar, gyda chwe awdurdod lleol bellach yn aelodau o Rwydwaith Byd-eang Dinasoedd a Chymunedau Oed-gyfeillgar Sefydliad Iechyd y Byd, sy'n cydnabod eu hymdrechion i weithio gydag eraill i alluogi pobl i heneiddio'n dda.

Gan helpu i sicrhau bod lleisiau pobl hŷn yn cael eu clywed ac yr ymatebir iddynt, cyhoeddais ganfyddiadau fy ymchwil i brofiadau pobl hŷn o fynediad at feddygfeydd, a'r ffyrdd y mae allgáu digidol yn effeithio ar fywydau bob dydd pobl hŷn. Roeddwn hefyd yn falch o gwrdd eto â'r unigolion a'r sefydliadau a gefnogodd fy ngwaith i dynnu sylw at brofiadau go iawn pobl hŷn Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, i ddangos sut mae'r dystiolaeth a rannwyd wedi arwain at gamau gweithredu gan fy swyddfa.

Ym mis Chwefror, rhoddais dystiolaeth hefyd i Ymchwiliad Covid-19 y DU, gan helpu i sicrhau bod lleisiau pobl hŷn a'u teuluoedd, a'u profiadau yn ystod y pandemig, yn cael eu cofnodi a'u bod yn gallu cyfrannu at ei ganfyddiadau a'i argymhellion. Drwy gydol y flwyddyn rwyf hefyd wedi bod yn bwrw ymlaen â chamau gweithredu i fynd i'r afael â materion allweddol sy'n ymwneud â'r pandemig a'i effaith barhaus ar bobl hŷn, gan ganolbwyntio ar ddiogelu hawliau pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal, gwella gwybodaeth a chyfathrebu am benderfyniadau Peidio â Cheisio CPR, lleihau allgáu digidol, a chodi ymwybyddiaeth am faterion allweddol fel oedraniaeth.

Wrth i'm cyfnod yn y swydd ddod i ben, hoffwn ddiolch i'r holl bobl hŷn ledled Cymru sydd wedi cefnogi fy ngwaith, nid yn unig eleni, ond bob blwyddyn ers i mi ddechrau yn y swydd. Mae'r materion a'r pryderon a godwyd gan bobl hŷn wedi chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o arwain a siapio fy ngwaith a chefnogi fy ngalwadau am weithredu. Rwyf wedi gwerthfawrogi'n fawr y cyfle i deithio ledled Cymru i gwrdd a siarad â phobl hŷn i glywed yn uniongyrchol am eu profiadau o fynd yn hŷn, yn dda ac yn ddrwg, yn ogystal â'u syniadau ynghylch sut y gellid gwella gwasanaethau a chymorth.

Hoffwn ddiolch hefyd i'r holl sefydliadau a phartneriaid rydw i wedi gweithio gyda nhw drwy gydol fy nghyfnod, sydd wedi gwneud cymaint i gefnogi pobl hŷn. Cefais gefnogaeth a chyngor da gan aelodau fy Mhwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, yn aelodau presennol a chyn-aelodau, a hoffwn ddiolch iddynt am y cyngor defnyddiol y maent wedi'i roi i mi dros y blynyddoedd.

Yn olaf, hoffwn ddiolch yn fawr iawn i'm tîm am eu hymroddiad, eu gwaith caled a'u cefnogaeth, sydd wedi ein galluogi i ddarparu cymaint i bobl hŷn yn ystod fy nghyfnod fel Comisiynydd.

Pan ddechreuais yn fy swydd, dywedais fy mod yn "edrych ymlaen at weithio gyda phobl hŷn ledled Cymru yn y rôl hanfodol hon i amddiffyn a hyrwyddo hawliau pobl hŷn." A phan fydd pobl hŷn yn edrych yn ôl ar fy ngwaith dros y chwe blynedd diwethaf, rwy'n gobeithio y bydden nhw'n dweud fy mod wedi cyflawni hynny, a mwy, i helpu i wneud Cymru yn lle mae pobl hŷn yn cael eu gwerthfawrogi, lle mae hawliau'n cael eu cynnal a lle nad oes neb yn cael ei adael ar ôl.

Dymuniadau gorau i chi ,

Heléna Herklots CBE
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Fy rôl fel Comisiynydd

Paratowyd y cyfrifon hyn yn unol â'r Cyfarwyddyd a roddwyd gan Weinidogion Cymru, a hynny yn unol â Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, Atodlen 1, Paragraff 10 (1) (b).

Rôl Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yw gwarchod a hybu hawliau pobl 60 oed a hŷn ledled Cymru, gan graffu a dylanwadu ar amrywiaeth eang o bolisïau ac arferion er mwyn gwella eu bywydau.

Rwy'n darparu cymorth a chefnogaeth yn uniongyrchol i bobl hŷn drwy fy nhîm Cyngor a Chymorth, ac rwy'n gweithio i rymuso pobl hŷn a sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed ac y gweithredir ar yr hyn y maen nhw'n ei ddweud.

Fy nghylch gwaith fel Comisiynydd

Fel y nodwyd yn Neddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, a sefydlodd y swydd, cylch gwaith y Comisiynydd yw:

- Hybu ymwybyddiaeth o fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru a'r angen i ddiogelu'r buddiannau hynny;
- Hyrwyddo'r cyfleoedd a ddarperir i bobl hŷn yng Nghymru, a dileu rhagfarn yn eu herbyn;
- Hybu'r arferion gorau o ran y ffordd y mae pobl hŷn yn cael eu trin yng Nghymru; a
- Parhau i adolygu digonolrwydd ac effeithiolrwydd y gyfraith sy'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru

Gweledigaeth a gwerthoedd

Wrth i ni fynd yn hŷn, mae pob un ohonom eisiau cael yr ansawdd bywyd gorau posibl a pharhau i wneud y pethau sy'n bwysig i ni.

Mae hyn yn golygu cael ein harfogi a'n grymuso i ymateb i'r heriau y gallwn eu hwynebu wrth i ni heneiddio. Mae hyn yn cynnwys deall ein hawliau er mwyn i ni allu sicrhau bod ein lleisiau'n cael eu clywed a herio arferion gwael, a gallu cyrchu gwasanaethau a chymorth yn hawdd os bydd eu hangen arnom.

Mae angen i ni hefyd ddathlu'r ffaith ein bod yn gymdeithas sy'n heneiddio, yn ogystal â'r cyfraniad sylweddol y mae pobl hŷn yn ei wneud i'n bywydau, sy'n hanfodol i fynd i'r afael â'r oedraniaeth a'r gwahaniaethu sy'n ein dal ni'n ôl fel cymdeithas.

Ar ben hynny, mae'n bwysig bod arferion da ac arloesedd yn cael eu rhannu a'u hyrwyddo i annog ac ysbrydoli gweithredu, ochr yn ochr â chraffu, herio a dal cyrff cyhoeddus i gyfrif pan fo angen i ddylanwadu ar bolisi ac ymarfer.

Mae'r egwyddorion hyn yn sail i'm gwaith fel Comisiynydd, ac maent yn hanfodol i gyflawni fy ngweledigaeth o Gymru lle mae pobl hŷn yn cael eu gwerthfawrogi, lle mae hawliau'n cael eu cynnal a neb yn cael ei adael ar ôl.

Ymddygiadau a Gwerthoedd Mewnol y Sefydliad

Mae ein gwerthoedd a'n hymddygiadau sefydliadol yn gyrru diwylliant ein sefydliad ac yn gosod sail i'n hamcanion perfformiad personol. Mae'r gwerthoedd hyn yn ffordd ddefnyddiol o ddal ein hunain yn atebol am y penderfyniadau rydym yn eu gwneud.

Un Tîm

Rhoi nodau a rennir o flaen agendâu unigol

Cynnig cymorth i bobl eraill mewn modd rhagweithiol

Parchus

Mynd ati'n weithredol i ofyn am farn pobl eraill

Gwerthfawrogi gwahanol syniadau a safbwyntiau

Cynhwysol a Chyfeillgar

Talu sylw i'n llesiant ein gilydd

Bod yn garedig, yn groesawgar ac yn gefnogol gyda phawb

Ystyried yr hyn rydyn ni'n ei ddweud a'i wneud, ac effaith hynny ar bobl eraill

Agored

Herio mewn modd adeiladol a bod yn barod am her

Dysgu gan bobl eraill

Chwilio am ffyrdd gwell o wneud pethau bob amser

Uchelgeisiol

Bod yn frwd dros ein gweledigaeth

Anelu at ragoriaeth

Bod yn flaengar ac yn barod i gymryd risgiau rhesymol i gael effaith

Gonestrwydd

Ymdrechu i wneud y pethau iawn a chymryd cyfrifoldeb dros ein gwaith

Gwneud yr hyn rydyn ni'n dweud ein bod ni am ei wneud

Rhaglen Waith 2022-24

Ym mis Mawrth 2022, cyhoeddais fy rhaglen waith 2022-24, yn nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd yn erbyn fy mhedwar maes blaenoriaeth: diogelu a hyrwyddo hawliau pobl hŷn, rhoi diwedd ar oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oedran, atal cam-drin pobl hŷn a galluogi pawb i heneiddio'n dda.

Cafodd y rhaglen waith ddwy flynedd ei dylunio i gefnogi a galluogi cynnydd o ran delio â materion a oedd yn codi oherwydd y pandemig a materion allweddol eraill fel yr argyfwng costau byw, ochr yn ochr â dylanwadu ar bolisïau ac arferion ehangach yn lleol ac yn genedlaethol.

Mae estyn allan at bobl hŷn ac ymgysylltu â nhw ledled Cymru hefyd wedi parhau i fod yn flaenoriaeth i mi a'm tîm drwy gydol y flwyddyn. Mae hyn yn hanfodol i gefnogi fy rhaglen waith ac i sicrhau bod lleisiau a phrofiadau pobl hŷn yn cael eu clywed a bod llunwyr polisi a phenderfyniadau yn ymateb iddynt, a'u bod yn cael eu defnyddio i siapio'r gwaith o ddatblygu a darparu polisïau a gwasanaethau ledled Cymru.

Mae rhagor o wybodaeth am y camau a gymerwyd yn erbyn pob un o'm blaenoriaethau a'm gwaith ehangach i ddylanwadu ar bolisi, darparu cyngor a chymorth yn uniongyrchol i bobl hŷn a hyrwyddo arferion da, wedi'i nodi isod.



Cipolwg ar y Flwyddyn 2023-24

Ebrill 2023

Ymuno â Chomisiynydd Plant Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i dynnu sylw at bwysigrwydd undod rhwng cenedlaethau a'r manteision y gallai hyn eu cynnig i gymdeithas.

Galwadau am weithredu gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol i sicrhau bod mwy o bobl hŷn yn cael cefnogaeth i gael gafael ar gymorth ariannol drwy'r Gronfa Cymorth Dewisol.

Mai

Rhybuddio y gallai pobl hŷn fod yn peryglu eu hiechyd drwy beidio â chael gafael ar wasanaethau iechyd hanfodol oherwydd pwysau ar y GIG.

Galw ar Lywodraeth y DU i adfer cymorth ariannol ar gyfer costau ynni tra bod biliau ynni yn parhau i fod yn uchel, gyda chymorth ychwanegol wedi'i dargedu at y bobl sydd fwyaf agored i niwed.

Mehefin

Cadarnhau bod tystiolaeth wedi cael ei chyflwyno i ddau 'fodiwl' o Ymchwiliad Covid-19 y DU sy'n canolbwyntio ar wneud penderfyniadau yng Nghymru ac effaith y pandemig ar ofal iechyd.

Tynnu sylw at effaith yr argyfwng costau byw ar unigrwydd ymysg pobl hŷn, a rôl hanfodol gwirfoddolwyr hŷn wrth ddarparu gweithgareddau cymunedol, fel rhan o Wythnos Ymwybyddiaeth Unigrwydd.

Gorffenaf

Estyn allan at bobl hŷn ledled Cymru, gan eu gwahodd i rannu eu profiadau o allgáu digidol a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar eu bywydau.

Tynnu sylw at y ffaith bod lefelau optimistiaeth ymysg pobl hŷn wedi gostwng ers 2021 a'r angen am fwy o ymgysylltu â phobl hŷn gan y llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus er mwyn deall yn well y camau a fyddai'n gwella bywydau pobl.

Awst

Cyhoeddi adroddiad diweddaru sy'n tynnu sylw at gynnydd yn erbyn yr argymhellion i wella gwasanaethau a chymorth i ddynion hŷn sy'n cael eu cam-drin, a gafodd eu cynnwys yn adroddiad 2022 y Comisiynydd sy'n edrych ar y mater hwn.

Rhybuddio bod diffyg toiledau cyhoeddus yn gwneud i lawer o bobl hŷn deimlo eu bod yn cael eu heithrio a'u caethiwo, a galw am ehangu'r ddarpariaeth toiledau, a gwella'r wybodaeth am doiledau cyhoeddus.

Medi

Gwahodd pobl hŷn i rannu eu profiadau o wasanaethau meddygon teulu yng Nghymru i ddysgu mwy am y mathau o broblemau a heriau y mae pobl yn eu hwynebu a nodi lle mae angen gweithredu.

Cyhoeddi diweddariad sy'n tynnu sylw at y camau a gymerwyd o ganlyniad i Uwchgynhadledd Credyd Pensiwn y Comisiynydd a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2022, sy'n cynnwys mynegi pryderon i Weinidog Pensiynau Llywodraeth y DU.

Hydref

Cynnal digwyddiad bwrdd crwn mewn partneriaeth â heddlu Dyfed Powys, gan ddod â sefydliadau allweddol at ei gilydd i archwilio materion sy'n ymwneud â sgamiau a throseddau ariannol.

Cyhoeddi papur briffio sy'n archwilio'r rhwystrau y mae llawer o bobl hŷn yn eu hwynebu wrth geisio aros mewn gwaith neu gael gwaith.

Tachwedd

Dod â thros 150 o bobl hŷn, partneriaid heneiddio'n dda a rhanddeiliaid eraill ynghyd ar gyfer cynhadledd i edrych ar ffyrdd o gydweithio i wneud Cymru'n genedl o gymunedau oed-gyfeillgar.

Enwebwyd ar gyfer y Wobr Amrywiaeth a Chynhwysiant yng Ngwobrau Cenedlaethol Dynion a Bechgyn am waith 'ysbrydoledig' i wella gwasanaethau i ddynion hŷn sy'n cael eu cam-drin.

Rhagfyr

Lansio hyb gwybodaeth newydd sy'n rhoi gwybodaeth allweddol am sut gallwn ni ddiogelu ein hunain a'n hanwyliaid rhag sgamiau a thwyll ariannol, a manylion sefydliadau sy'n gallu darparu cymorth a chefnogaeth.

Cyhoeddi papur briffio newydd sy'n tynnu sylw at yr ymchwil ddiweddaraf i effaith unigrwydd ac yn archwilio'r materion a'r heriau sy'n cael eu creu gan y pandemig.

Ionawr

Cyhoeddi adroddiad 'Dim Mynediad' sy'n tynnu sylw at y ffaith bod pobl hŷn mewn perygl o gael eu heithrio'n gymdeithasol a chael eu gadael ar ôl.

Rhoi tystiolaeth i Bwyllgor Menywod a Chydraddoldeb Senedd y DU i dynnu sylw at y ffyrdd y mae rhagfarn ar sail oedran yn tanseilio hawliau pobl hŷn a pham ei bod yn hollbwysig canolbwyntio mwy ar ddiogelu hawliau pobl hŷn sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol.

Chwefror

Darparu tystiolaeth lafar i Ymchwiliad Covid-19 y DU, gan ddisgrifio elfennau o ymateb Llywodraeth Cymru i'r pandemig fel rhai 'annigonol'.

Lansio hyb gwybodaeth i roi gwybodaeth allweddol i bobl hŷn a'u teuluoedd am benderfyniadau clinigol sy'n ymwneud â Peidio â Cheisio CPR a chysylltu pobl ag adnoddau defnyddiol eraill i alluogi trafodaethau amserol, sensitif a gwybodus am DNACPR.

Mawrth 2024

Cyhoeddi adroddiad mynediad at feddygon teulu, sy'n tynnu sylw at y ffaith bod anawsterau o ran cael mynediad at feddygfeydd yn golygu bod llawer o bobl hŷn yn byw gyda chyflyrau sy'n dirywio.

Croesawu cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol i Atal Cam-drin Pobl Hŷn, y cyntaf o'i fath yn y DU.

2023-24 mewn rhifau

381 Nifer y bobl hŷn a gefnogir gan Dîm Cyngor a Chymorth y Comisiynydd

30,176 Nifer yr unigolion a ymwelodd â Gwefan y Comisiynydd

81,486 Nifer y tudalennau a welwyd ar wefan y Comisiynydd

468 Nifer yr ymweliadau â Chyfeiriadur Gwasanaethau Cymorth Cam-drin y Comisiynydd

355,200 Nifer yr argraffi adau Twitter (nifer o weithiau y gwelwyd negeseuon gan y Comisiynydd)

61,380 Nifer y bobl a gyrhaeddwyd gyda negeseuon o dudalen Facebook y Comisiynydd

123 Nifer yr eitemau newyddion yn ymwneud â gwaith y Comisiynydd

1,205,508,336 ‘Cyfleoedd i weld’ eitemau newyddion yn ymwneud â gwaith y Comisiynydd

Gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2023-24

Diogelu a Hyrwyddo Hawliau Pobl Hŷn

Wrth i ni heneiddio, efallai y bydd ein hangen am wasanaethau a chymorth yn fwy, ac y byddwn mewn sefyllfaoedd lle mae'n fwy tebygol y gallai ein hawliau gael eu rhoi mewn perygl. Ac er nad yw ein hawliau'n lleihau wrth i ni heneiddio, mae pobl hŷn yn aml yn dweud eu bod yn teimlo bod hynny'n digwydd.

Felly, mae gweithio gyda chyrff cyhoeddus i sicrhau bod hawliau pobl hŷn yn cael eu hadlewyrchu ym mhob rhan o bolisi, penderfyniadau ac ymarfer wedi parhau i fod yn ffocws allweddol yn fy ngwaith yn ystod y deuddeg mis diwethaf, ac erbyn hyn mae yna ddealltwriaeth lawer gwell o pam mae dulliau sy'n seiliedig ar hawliau mor bwysig.

Yn ogystal â hyn, rwyf wedi parhau i weithio i rymuso pobl hŷn drwy ddatblygu gwybodaeth ac adnoddau newydd i helpu pobl i ddeall eu hawliau'n well a sut gellir eu defnyddio i'n cefnogi yn ein bywydau bob dydd, gan gynnwys herio arferion gwael.

Roedd y gwaith yn ystod 2023-24 yn cynnwys:

- Gwahodd pobl hŷn i rannu eu profiadau o allgáu digidol a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar eu bywydau drwy arolwg a rannwyd yn eang ledled Cymru, gan adeiladu ar fy ngwaith i sicrhau bod pobl hŷn yn gallu cael gafael ar wybodaeth a gwasanaethau drwy ddulliau nad ydynt yn ddigidol, neu eu bod yn cael eu cefnogi i fynd ar-lein neu i aros ar-lein.

- Ddefnyddio'r profiadau a rannwyd gan dros 150 o bobl hŷn fel sail i'm hadroddiad Dim Mynediad, a ganfu fod mwy a mwy o bobl hŷn yng Nghymru mewn perygl o gael eu heithrio'n gymdeithasol a chael eu gadael ar ôl wrth i'r defnydd o dechnoleg ddigidol barhau i chwarae mwy fyth o ran yn ein bywydau bob dydd. Roedd yr adroddiad yn dangos bod llawer o bobl hŷn yn ei chael hi'n fwy a mwy anodd, os nad yn amhosib, cael gafael ar y wybodaeth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt – gan gynnwys gwasanaethau hanfodol fel apwyntiadau iechyd – ac ar yr un pryd yn wynebu rhwystrau sylweddol sy'n gallu arwain at allgáu digidol neu ei atgyfnerthu, fel cynnal sgiliau digidol, costau a phryderon am ddiogelwch.

- Galw ar gyrff cyhoeddus i sicrhau bod dyletswyddau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb (a deddfwriaeth berthnasol arall) yn cael eu cyflawni, a darparu cymorth ymarferol i gael pobl ar-lein wrth barhau i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau drwy ddulliau nad ydynt yn ddigidol. Ar ben hynny, roeddwn yn galw am sicrhau bod allgáu digidol yn fater canolog mewn trafodaethau am ddylunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus, a bod lleisiau pobl hŷn sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol yn cael eu clywed a'u hateb yn fwy effeithiol. Roeddwn hefyd yn galw ar gwmnïau preifat i weithredu fel bod cwsmeriaid 'all-lein' yn cael yr un lefelau o wasanaeth, ac am fwy o gymorth i'r rheini a allai fod ei angen.

- Cwrdd â'r unigolion a'r grwpiau a gefnogodd fy ngwaith i archwilio profiadau bywyd pobl hŷn Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig er mwyn rhannu fy nghanfyddiadau ac, yn bwysig, dangos sut roedd y dystiolaeth a rannwyd yn hysbysu fy ngwaith fel Comisiynydd ac yn siapio prosiectau allweddol.

- Gwaith partneriaeth parhaus gydag aelodau'r grŵp hawliau pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal, sy'n dod â sefydliadau o Gymru a ledled y DU at ei gilydd, gyda'r nod o gryfhau hawliau pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal. Mae hyn wedi cynnwys gwaith sy'n canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o hawliau pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal, gwella diogelwch deiliadaeth pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal, gwella mynediad at ofal iechyd mewn cartrefi gofal a pharhau i ddarparu gwybodaeth i bobl hŷn a'u teuluoedd am hawliau.

- Lansio canolfan adnoddau newydd i helpu pobl hŷn a'u teuluoedd ddeall ein hawliau pan fydd penderfyniadau clinigol yn cael eu gwneud sy'n ymwneud â Pheidio â Cheisio CPR (DNACPR), er mwyn galluogi trafodaethau amserol, sensitif a gwybodus. Mae'r hyb yn darparu gwybodaeth allweddol ac yn cysylltu pobl ag amrywiaeth eang o adnoddau defnyddiol, gan gynnwys y ffurflen DNACPR ei hun, gwybodaeth allweddol a gynhyrchir gan sefydliadau eraill, a manylion gwasanaethau sy'n gallu cynnig cymorth os oes gan rywun bryderon am y broses DNACPR.

- Dod â dros 100 o bobl hŷn, arbenigwyr hawliau a rhanddeiliaid eraill at ei gilydd ar gyfer digwyddiad gweminar – Ysgrifennu'r bennod nesaf ar gyfer hawliau dynol yng Nghymru. Roedd y digwyddiad, a oedd yn nodi 75 mlynedd ers y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol, yn edrych ar sut y gellir gwireddu hawliau dynol ym mywydau bob dydd pobl hŷn a'r camau y gellid eu cymryd, yng Nghymru ac yn ehangach, i wreiddio hawliau dynol ar draws polisïau ac arferion, fel deddfwriaeth sy'n benodol i Gymru neu Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar hawliau pobl hŷn.

- Datblygu fy nghanllaw gwybodaeth 'Barod i fynd' i hysbysu a grymuso pobl hŷn drwy ddarparu gwybodaeth am yr hyn y dylem ei ddisgwyl pan fyddwn yn barod i gael ein rhyddhau o'r ysbyty, a'n hawliau drwy gydol y broses ryddhau. Mae'r canllaw, a ddatblygwyd gyda chymorth gan bobl hŷn, yn rhoi atebion i gwestiynau cyffredin, yn egluro'r iaith / termau allweddol sy'n gysylltiedig â rhyddhau o'r ysbyty ac yn rhoi manylion cysylltiadau defnyddiol.

- Darparu tystiolaeth ysgrifenedig a llafar i ymchwiliad Pwyllgor Menywod a Chydraddoldeb Senedd y DU i hawliau pobl hŷn, gan ddisgrifio'r rôl y mae oedraniaeth yn ei chwarae o ran tanseilio hawliau a pham mae mwy o ffocws ar ddiogelu hawliau pobl hŷn sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol yn hanfodol.

- Ochr yn ochr â'r prosiectau hyn, mae fy nhîm a minnau wedi parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus allweddol eraill i wneud y canlynol:

    - Archwilio'r ffyrdd y gellid gwella'r broses a'r cyfathrebu sy'n ymwneud â hysbysiadau Peidiwch â Cheisio CPR er mwyn sicrhau bod pobl hŷn a'u teuluoedd yn cael eu cynnwys yn briodol ac yr ymgynghorir â nhw fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau.

    - Adolygu canllawiau ar brosesau rhyddhau o'r ysbyty i sicrhau bod hawliau pobl hŷn yn cael eu cynnal, gan gynnwys pan fo angen llety dros dro mewn cartref gofal wrth aros i ofal a chymorth gael eu trefnu.

    - Sicrhau trylwyredd o ran casglu data ynghylch yr amser y mae pobl hŷn yn aros mewn cartref gofal dros dro wrth aros i ofal a chymorth tymor hir gael eu trefnu.

    - Sicrhau bod anghenion pobl hŷn sy'n anabl yn cael eu hystyried fel rhan o waith y Tasglu Hawliau Anabledd, gan gynnwys pobl ag anabledd a phobl sy'n profi anabledd wrth iddynt heneiddio.

Rhoi diwedd ar oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oed

Mae oedraniaeth yn aml yn cael ei bortreadu fel rhywbeth diniwed ac mae'n cael ei ystyried yn dderbyniol, er ei fod yn sail i lawer o'r problemau sy'n wynebu pobl hŷn, yn arwain at driniaeth annheg a gwahaniaethu, ac yn cyfyngu ar y cyfleoedd a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnom i heneiddio'n dda.

Er gwaethaf ei effaith sylweddol, mae oedraniaeth yn dal yn gyffredin (mae ymchwil gan Sefydliad Iechyd y Byd yn dangos bod gan tua hanner ein poblogaeth safbwyntiau oedraniaethol) sydd nid yn unig yn effeithio ar y ffyrdd y mae cymdeithas yn ymateb i bobl hŷn a'u hanghenion, ond hefyd yn arwain at unigolion yn niweidio eu hiechyd a'u lles eu hunain oherwydd oedraniaeth mewnol.

Felly, mae archwilio'r ffyrdd y mae oedraniaeth yn rhyngweithio â materion sy'n effeithio ar fywydau pobl hŷn ac yn eu gwaethygu, a nodi blaenoriaethau ar gyfer gweithredu, wedi bod yn ffocws allweddol yn fy ngwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ochr yn ochr â gweithio gyda chyrff cyhoeddus i wella'r iaith a'r delweddau a ddefnyddir wrth gyfathrebu am bobl hŷn a heneiddio.

Roedd y gwaith yn ystod 2023-24 yn cynnwys:

- Dod ag arbenigwyr ym meysydd gwahaniaethu ar sail oedran a cham-drin pobl hŷn at ei gilydd mewn digwyddiad bwrdd crwn i archwilio'r cysylltiadau rhwng y materion hyn, a'r ffyrdd y gallai deall y cysylltiadau hyn ein helpu i fynd i'r afael â cham-drin pobl hŷn.
- Roedd bwrw ymlaen â'r camau gweithredu a nodwyd yn ystod y digwyddiad bwrdd crwn yn canolbwyntio ar annog ymarferwyr i fyfyrio ar oedraniaeth a'i effeithiau posibl ar eu gwaith gyda phobl hŷn sy'n cael eu cam-drin. Mae hyn wedi cynnwys sefydlu is-grŵp gyda'r dasg o archwilio sut y gallai sefydliadau ddatblygu a defnyddio pecyn o adnoddau i gynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth ymysg eu hymarferwyr.
- Gweithio gyda swyddogion i nodi sut gallai Llywodraeth Cymru fod yn esiampl o ran arferion sy'n gadarnhaol o ran oedran, fel drwy ddarparu hyfforddiant i staff i'w helpu i adnabod ac osgoi oedraniaeth wrth wneud penderfyniadau a chyfathrebu. Mae hyn wedi cynnwys rhoi adborth ar ganllawiau newydd i staff allweddol ynghylch creu deunydd cyfathrebu cynhwysol, sy'n cyfeirio'n benodol at bobl hŷn a heneiddio.
- Hyrwyddo a dosbarthu fy nghanllaw 'Sut i osgoi oedraniaeth wrth gyfathrebu' i gyrff cyhoeddus, partneriaid rhanddeiliaid a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda phobl hŷn ledled Cymru, sy'n cynnwys awgrymiadau ymarferol i helpu sefydliadau i osgoi iaith a delweddau oedraniaethol, yn ogystal ag enghreifftiau o arferion da.
- Tynnu sylw at yr agweddau dideimlad, oedraniaethol tuag at bobl hŷn, yr adroddwyd amdanynt mewn cofnodion o drafodaethau ymysg uwch wleidyddion a swyddogion Llywodraeth y DU, a amlygwyd fel rhan o Ymchwiliad Covid-19 y DU.
- Gweithio gyda Sefydliad Iechyd y Byd, a phartneriaid ledled y byd, i gefnogi datblygiad yr Ymgyrch Fyd-eang i Fynd i'r Afael ag Oedraniaeth, sy'n ceisio newid y ffordd rydym yn meddwl, yn teimlo ac yn gweithredu o ran oed a heneiddio.

Atal cam-drin pobl hŷn

Er bod cam-drin yn effeithio ar filoedd o bobl hŷn yng Nghymru, mae'n aml yn dal yn fater cudd sy'n rhoi unigolion mewn perygl sylweddol o niwed difrifol.

Mae fy ngwaith wedi bod yn allweddol o ran cynyddu cydnabyddiaeth a dealltwriaeth o faint ac effaith cam-drin pobl hŷn yng Nghymru, ac yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rwyf wedi bwrw ymlaen ag amrywiaeth o gamau ymarferol i fynd i'r afael â materion a nodwyd yn yr ymchwil rwyf wedi'i chynnal a'r dystiolaeth rwyf wedi'i chasglu.

Roedd y gwaith yn ystod 2023-24 yn cynnwys:

- Cynnal digwyddiad mewn partneriaeth â Heddlu Dyfed Powys i ddod â sefydliadau allweddol at ei gilydd i ganfod mathau cyffredin a newydd o sgamiau a thwyll ariannol, archwilio'r amodau mewn cymdeithas a allai alluogi troseddau o'r natur hwn, a ffyrdd o sicrhau bod y wybodaeth sydd ar gael i bobl hŷn yn fwy effeithiol. Mae'r digwyddiad hwn wedi arwain at y camau canlynol:
  - Cynnal sesiwn peilot grŵp ffocws lwyddiannus i glywed yn uniongyrchol gan bobl hŷn am sut y gellid gwella gwybodaeth ac adnoddau am sgamiau a thwyll ariannol, gan archwilio elfennau gan gynnwys cynnwys, iaith a delweddau. Mae rhagor o sesiynau ar y gweill ar gyfer Gwanwyn 2024 a bydd y wybodaeth a rennir yn hysbysu'r gwaith o ddatblygu canllawiau i randdeiliaid ar gynhyrchu deunyddiau o'r fath.
  - Dod â'r wybodaeth allweddol ddiweddaraf at ei gilydd am y mathau o sgamiau a thwyll ariannol sy'n gyffredin dros y Nadolig i helpu pobl hŷn a'u teuluoedd i ddeall yn well beth i gadw llygad amdano a sut gallant ddiogelu eu hunain.
- Darparu craffu ac adborth manwl i Lywodraeth Cymru i gefnogi datblygiad terfynol y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol i Atal Cam-drin Pobl Hŷn, a gyhoeddwyd ddiwedd mis Chwefror, y cyntaf o'i fath yn y DU, yr oeddwn wedi galw amdano i helpu i amddiffyn yn well y miloedd o bobl hŷn yng Nghymru sy'n cael eu cam-drin neu sydd mewn perygl o gael eu cam-drin.
- Cwrdd â phobl hŷn sydd wedi cael eu cam-drin i glywed ganddynt am y gwelliannau sydd eu hangen er mwyn i bobl allu cael gafael ar y cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.
- Cwrdd â staff a gwirfoddolwyr mewn gwasanaethau cymorth cam-drin domestig ledled Cymru i ddysgu mwy am yr arferion da sy'n cael eu darparu i estyn allan at bobl hŷn a'u cefnogi, y gellid eu darparu'n ehangach mewn rhannau eraill o Gymru.
- Codi ymwybyddiaeth o'r rôl y gall gweithwyr proffesiynol ac ymarferwyr ei chwarae o ran helpu i atal cam-drin pobl hŷn gyda sefydliadau cenedlaethol a lleol allweddol, gan gynnwys Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, Grŵp Trawsbleidiol y Senedd ar Ferched a Phlant, Byrddau Diogelu Rhanbarthol, ac eraill.

- Gwaith parhaus gydag aelodau o'm Grŵp Gweithredu ar Atal Cam-drin i fwrw ymlaen â chamau mewn nifer o feysydd blaenoriaeth allweddol, gan gynnwys dylanwadu ar bolisi a deddfwriaeth, hyrwyddo arferion da, gwella hyfforddiant i staff a chynyddu gwybodaeth ymysg ymarferwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol.
- Dod ag arbenigwyr ym meysydd cam-drin ac oedraniaeth ynghyd ar gyfer digwyddiad bwrdd crwn i archwilio'r cysylltiadau rhwng y materion hyn (fel y nodir uchod).

Galluogi pawb i heneiddio'n dda

Mae gallu gwneud y pethau sy'n bwysig i ni wrth i ni heneiddio, a theimlo ein bod yn cael ein gwerthfawrogi, ein cynnwys a'n parchu, yn chwarae rhan hollbwysig yn y broses o'n galluogi i heneiddio'n dda.

Mae gwneud ein cymunedau'n fwy oed-gyfeillgar – er mwyn i ni allu cael gafael ar yr amwynderau, y gwasanaethau a'r gefnogaeth y gallai fod eu hangen arnom wrth i ni heneiddio – yn elfen allweddol o hyn, ac mae'r cynnydd a wnaed yn ystod y deuddeg mis diwethaf wedi dod â'r realiti o Gymru oed-gyfeillgar yn nes fyth.

Roedd y gwaith yn ystod 2023-24 yn cynnwys:

Gwneud Cymru yn genedl oed-gyfeillgar:

- Dod â thros 120 o bobl hŷn a rhanddeiliaid ynghyd, a thua 50 o gynrychiolwyr ar-lein o bob cwr o Gymru ar gyfer digwyddiad cynhadledd hybrid, Gwneud Cymru'n genedl oed-gyfeillgar: Dathlu cynnydd, adeiladu ar lwyddiant, i ysbrydoli gweithredu a phartneriaethau newydd i gefnogi'r gwaith o gyflawni hyd yn oed mwy o brosiectau a mentrau oed-gyfeillgar. Clywodd y cynadleddwyr gan bobl hŷn am yr arferion da maen nhw'n eu darparu'n lleol i gefnogi pobl i heneiddio'n dda yn ogystal â siaradwyr arbenigol, gan gynnwys y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, Julie Morgan AS, Prif Weithredwr Iechyd Cyhoeddus Cymru, Tracey Cooper, a Llefarydd CLlLC ar Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y Cynghorydd Norma Mackie.
- Sefydlu Cymuned Ymarfer Oed-gyfeillgar (CoP) Cymru, sydd bellach â thros 50 o aelodau'n cynnwys pobl hŷn, grwpiau a sefydliadau sy'n cynrychioli pobl hŷn, Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a sefydliadau academaidd. Mae'r CoP yn cefnogi ei aelodau i:
  - Rannu gwybodaeth ac arferion da, a gwneud cysylltiadau newydd ar draws ffiniau sirol a rhanbarthol.
  - Cael y wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau i bolisi ac ymarfer, a/neu godi ymwybyddiaeth o newidiadau o'r fath.
  - Archwilio sut mae gwahanol ardaloedd wedi mynd i'r afael â gwahanol agweddau ar waith i gefnogi pobl i heneiddio'n dda, gan gynnwys sut y gwnaethant oresgyn rhwystrau.
  - Dylanwadu ar bolisi ac ymarfer ledled Cymru drwy rannu gwybodaeth, profiad a heriau gyda chymheiriaid a sefydliadau rhanddeiliaid allweddol.
  - Nodi ffynonellau cyllid posibl a chyfleoedd ar gyfer dysgu a datblygu.
- Darparu dros 30 o sesiynau un-i-un gydag awdurdodau lleol yng Nghymru i ddarparu cyngor, arbenigedd a chymorth ar ddatblygu cynlluniau a strategaethau lleol oed-gyfeillgar, yn ogystal â'u ceisiadau i ymuno â Rhwydwaith Byd-eang Sefydliad Iechyd y Byd o ddinasoedd a chymunedau oed-gyfeillgar, gan gydnabod ymrwymiad i wneud cymunedau'n fwy oed-gyfeillgar. .

- Dod â phobl hŷn a phartneriaid lleol ynghyd â sefydliadau cenedlaethol allweddol – fel Cyfoeth Naturiol Cymru, Trafnidiaeth Cymru a CLILC – i rannu gwybodaeth a manylion am ddatblygiadau polisi perthnasol yng nghyfarfodydd chwarterol Grŵp Partneriaeth Cymru Oed-Gyfeillgar.

- Sefydlu gweithgor i gynllunio a datblygu ffyrdd o werthuso gwaith Ymgysylltu Oed-gyfeillgar yng Nghymru, gan ddod ag awdurdodau lleol, cydweithwyr academaidd a phobl hŷn at ei gilydd i gydgynhyrchu dulliau arolygu sy'n cael eu treialu gan 8 tîm lleol.

- Cyflwyno canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg o waith Ymgysylltu Oed-Gyfeillgar gyda phobl hŷn gan awdurdodau lleol a phartneriaid mewn digwyddiadau rhwydwaith rhanbarthol a chenedlaethol a gynhelir gan Lywodraeth Cymru i ysbrydoli a chefnogi gweithredu lleol.

- Rhannu arferion da a phrofiadau o Gymru a Chymunedau Oed-gyfeillgar Cymru mewn digwyddiadau a gynhaliwyd gan Gynghrair Pobl Hŷn yr Alban yng Nghaeredin, y Ganolfan Heneiddio'n Well yn Llundain, a gan Sefydliad Iechyd y Byd yn Lisbon a Pharis.

- Rhannu gwybodaeth a dysgu mewn digwyddiadau a chyfarfodydd rhanddeiliaid allweddol yma yng Nghymru, gan gynnwys y Grŵp Trawsbleidiol ar Undod Rhwng Cenedlaethau, Grŵp Cynghori Chwaraeon Cymru ar gyfer y Cynllun Hamdden Llesol 60+ oed, a Fforwm Cynghori'r Gweinidog ar Heneiddio.

Gwaith ehangach i alluogi pawb i heneiddio'n dda:

- Casglu tystiolaeth gan dros 900 o bobl hŷn am eu profiadau o feddygfeydd drwy holiaduron, digwyddiadau ymgysylltu a'm Gwasanaeth Cyngor a Chymorth, a oedd yn sail i fy adroddiad Mynediad at Feddygfeydd, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2024 (rhagor o wybodaeth isod).

- Cyhoeddi papur briffio i dynnu sylw at yr ymchwil ddiweddaraf i effaith unigrwydd ar bobl hŷn, yn ogystal â phroblemau a heriau a grëwyd gan y pandemig, a gafodd ei rannu â Llywodraeth Cymru ac Aelodau'r Senedd. Mae'r papur yn galw am ragor o gefnogaeth i grwpiau cymunedol a sefydliadau y mae eu gwaith yn chwarae rhan hollbwysig o ran atal a lliniaru unigrwydd, ac i Lywodraeth Cymru adolygu a diweddaru ei strategaeth Unigrwydd i sicrhau ei bod yn dal i adlewyrchu anghenion a phrofiadau pobl hŷn.

- Darparu gwybodaeth i bobl hŷn ledled Cymru am sut i hawlio Credyd Pensiwn, ochr yn ochr ag annog sefydliadau i gefnogi pobl hŷn i hawlio'r hyn y mae ganddynt hawl iddo.

Mynediad at Feddygfeydd yng Nghymru: Profiadau Pobl Hŷn

Gan ymateb i bryderon sy'n cael eu rhannu'n aml gan bobl hŷn am anawsterau wrth gael mynediad at feddygfeydd, ym mis Medi 2023 fe wnes i wahodd pobl hŷn i gysylltu â'm swyddfa i rannu eu profiadau er mwyn i mi allu edrych yn fanylach ar y problemau roedd pobl yn eu hwynebu a nodi'r camau gweithredu sydd eu hangen i wella eu profiadau.

Cafwyd ymateb sylweddol gan bobl hŷn ledled Cymru, gyda dderbyn dros 900 o holiaduron wedi'u llenwi a oedd yn rhannu gwybodaeth am bopeth, o drefnu apwyntiad, amgylchedd y feddygfa, i wneud cwyn. Casglwyd tystiolaeth hefyd drwy glywed yn uniongyrchol gan bobl hŷn mewn digwyddiadau ymgysylltu a thrwy fy Ngwasanaeth Cyngor a Chymorth.

Defnyddiais y dystiolaeth a gasglwyd fel sail ar gyfer fy adroddiad Mynediad at Feddygfeydd: Profiadau Pobl Hŷn, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2024.

Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at y ffaith bod tua dwy ran o dair o'r bobl hŷn a ymatebodd yn ei chael yn anodd gwneud apwyntiadau addas, neu'n wynebu problemau wrth geisio cysylltu neu gyfathrebu â'u meddyg teulu, sy'n golygu bod llawer o unigolion yn dioddef mewn poen, yn byw gyda chyflyrau sy'n dirywio ac yn teimlo'n boenus ac yn bryderus. Yn ogystal, mae newidiadau i'r ffordd y mae gwasanaethau meddygon teulu yng Nghymru yn cael eu defnyddio, sydd wedi cyflymu llawer dros y blynyddoedd diwethaf, a'r berthynas newidiol rhwng cleifion a'u practisau, yn aml yn ei gwneud yn anodd i bobl hŷn ddod o hyd i apwyntiadau addas gyda chlinigydd priodol.

Un pryder penodol oedd y ffaith bod rhai pobl hŷn wedi dweud eu bod yn dal gwybodaeth yn ôl am eu hiechyd neu eu symptomau gyda rhai clinigwyr oherwydd y mathau hyn o broblemau, gan ffafrio trafod materion penodol yn unig gyda'u meddyg eu hunain, rhywbeth sy'n peri risg sylweddol i iechyd pobl.

Dywedodd llawer o bobl hŷn hefyd nad yw gwasanaethau'n aml yn teimlo'n 'gydgysylltiedig' a bod cyfathrebu rhwng gwasanaethau'n gallu bod yn wael, sydd wedi arwain at achosion o wybodaeth am gleifion yn mynd ar goll, oedi gyda phresgripsiynau hanfodol, a phobl yn cael eu hanfon 'o un lle i'r llall' wrth geisio datrys problemau.

Roedd y materion eraill a amlygwyd yn cynnwys cael gafael ar wasanaethau a gwybodaeth mewn iaith o'u dewis – rhwystr penodol i bobl hŷn Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig – a chyrraedd cymorthfeydd ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Mae fy adroddiad yn cynnwys cyfres o argymhellion ar gyfer meddygfeydd, byrddau iechyd, Llywodraeth Cymru a chyrff a sefydliadau iechyd eraill, sy'n nodi'r camau sydd eu hangen i wella profiadau pobl hŷn a mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n ei gwneud hi'n anoddach cael mynediad at feddygfeydd.

Mae hyn yn cynnwys camau gweithredu sy'n canolbwyntio ar feithrin perthnasoedd o ymddiriedaeth rhwng cleifion a'u meddygfeydd, cael gwared ar rwystrau ymarferol i fynediad a gwella cyfathrebu, yn ogystal â sicrhau bod digon o fuddsoddiad i foderneiddio systemau a gwella seilwaith ehangach.

Byddaf yn monitro'r cynnydd yn erbyn y cam gweithredu hwn, a byddaf yn parhau i annog a chefnogi gwasanaethau iechyd, meddygfeydd, a sefydliadau allweddol eraill i estyn allan ac ymgysylltu â phobl hŷn ledled Cymru mewn ffordd ystyrlon er mwyn i leisiau cleifion o bob oed helpu i siapio polisïau ac arferion.

Rwyf hefyd wedi defnyddio fy nghanfyddiadau i ddatblygu canllaw newydd ar gyfer pobl hŷn i ddarparu gwybodaeth am hawliau pobl hŷn ynghylch cael mynediad at feddygfeydd, a manylion y cymorth sydd ar gael os bydd pobl yn wynebu problemau neu rwystrau.

Rhoi tystiolaeth ar gyfer Ymchwiliad Covid-19 y DU

Yn ystod 2023-24, fe wnes i baratoi tystiolaeth i'w chyflwyno i Ymchwiliad Covid-19 y DU, i helpu i sicrhau bod lleisiau a phrofiadau pobl hŷn yn cael eu clywed a'u cofnodi, a bod digon o ffocws ar faterion fel y ffordd roedd y pandemig yn effeithio ar hawliau pobl hŷn.

Roedd casglu'r dystiolaeth yn golygu ailedrych ar filoedd o dudalennau o ohebiaeth a chyfathrebu, gan fy atgoffa'n amserol am yr anawsterau enfawr a wynebwyd gan bobl hŷn a'r effaith anghymesur a gafodd sawl agwedd ar y pandemig ar fywydau pobl, yn ogystal â'r effaith barhaus y mae hyn yn dal i'w chael ar fywydau cynifer o bobl.

Cyflwynais dystiolaeth i ddau o 'fodiwlau' yr Ymchwiliad – yn ymwneud â phenderfyniadau yng Nghymru (Modiwl 2b) ac effaith pandemig Covid-19 ar systemau gofal iechyd yn y DU (Modiwl 3) – ac rwy'n rhagweld y byddaf yn rhoi rhagor o dystiolaeth i fodiwlau eraill wrth iddynt gael eu cyhoeddi gan Gadeirydd yr Ymchwiliad.

Ym mis Chwefror, rhoddais dystiolaeth lafar i Fodiwl 2b yr Ymchwiliad, a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar fy mhryderon nad oedd hawliau pobl hŷn yn cael eu diogelu'n ddigonol, a'r ymateb 'annigonol' gan Lywodraeth Cymru i faterion allweddol a gododd oherwydd y pandemig.

Roedd yr Ymchwiliad yn ein hatgoffa bod miloedd o bobl ledled y wlad yn dal i brofi poen a galar, ac rwy'n gobeithio y bydd y dystiolaeth rwyf wedi'i rhannu â'r Ymchwiliad yn helpu i sicrhau bod gwersi hanfodol yn cael eu dysgu, yn enwedig o ran amddiffyn hawliau pobl hŷn a diogelu pobl hŷn yn effeithiol.

Yr wyf yn ymwybodol iawn, fodd bynnag, fod ymchwiliadau cyhoeddus yn cymryd amser sylweddol i gasglu tystiolaeth, llunio adroddiadau a gwneud argymhellion. Dyna pam rydw i wedi bod yn gweithredu ar y materion sy'n cael eu rhannu â mi gan bobl hŷn, a'r dystiolaeth rydw i wedi'i chasglu am yr hyn sydd angen ei newid.

Fel y nodwyd uchod, ac yn fy adroddiadau blynyddol blaenorol, mae hyn wedi cynnwys amrywiaeth o gamau gweithredu i ddiogelu hawliau pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal, gwella gwybodaeth a chyfathrebu am benderfyniadau DNACPR, mynd i'r afael ag allgáu digidol a chodi ymwybyddiaeth o faterion allweddol gan gynnwys hawliau pobl hŷn ac oedraniaeth.

Darparu cyngor a chymorth i bobl hŷn

Yn ystod 2023-24, darparodd fy Ngwasanaeth Cyngor a Chymorth help a chefnogaeth i 381 o bobl hŷn a'u teuluoedd, gan helpu i sicrhau bod hawliau pobl cael eu cynnal, darparu gwybodaeth hollbwysig am amrywiaeth o faterion, a chysylltu pobl â chymorth a gwasanaethau ledled Cymru.

"Gwasanaeth gwych, achubiaeth i bobl hŷn."

Adborth gan berson hŷn

Roedd cyfran sylweddol o'r ymholiadau a gafodd y tîm yn ymwneud â gofal cymdeithasol (21%), ac yna materion yn ymwneud ag iechyd (18%), cyllid (17%) a thai (16%). Roedd fy Ngwasanaeth Cyngor a Chymorth hefyd yn darparu cefnogaeth ar faterion eraill, gan gynnwys gwahaniaethu ar sail oedran, cam-drin, trafnidiaeth a gwasanaethau cymunedol. .

"Mae eich cymorth caredig wedi bod yn amhrisiadwy. Wyddoch chi ddim faint wnaethoch i mi deimlo fy mod i'n cael fy nghefnogi drwy wybod eich bod chi'n gwrando arnom ni ac yn gweithio i ddileu cam-drin pobl hŷn, sy'n broblem eang a chuddiedig yng Nghymru."

Adborth gan berson hŷn

Roedd y materion a godwyd drwy Gyngor a Chymorth a oedd yn benodol i 2023-24 yn cynnwys:

- Cwynion am iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys anhawster wrth lywio drwy brosesau cwyno.
- Mynediad at feddygon teulu a gofal sylfaenol, gan gynnwys apwyntiadau ar-lein a chael gafael ar alwadau tŷ.
- Anawsterau'n ymwneud â rhyddhau o'r ysbyty
- Toriadau i wasanaethau bysiau a diffyg trafnidiaeth gyhoeddus hygyrch.
- Costau byw, gan gynnwys anhawster talu biliau ynni a cheisio cyngor ar sut i leihau costau.
- Hygyrchedd gwasanaethau, gan gynnwys allgáu digidol a thaliadau di-arian.
- Diffyg atgyweirio mewn tai preifat a chwynion am amseroldeb gwaith cynnal a chadw mewn tai cymdeithasol.
- Mynediad at lety dros dro hygyrch i bobl hŷn ddigartref.

Mae'r profiadau a rannwyd gan bobl hŷn a'u teuluoedd a gasglwyd drwy fy Ngwasanaeth Cyngor a Chymorth yn rhoi cipolwg hanfodol ar y mathau o heriau y mae pobl hŷn yng Nghymru yn eu hwynebu, a'r ffyrdd y mae polisi ac ymarfer yn effeithio ar fywydau pobl hŷn. Mae hyn wedi fy ngalluogi i nodi materion allweddol, gan gynnwys enghreifftiau lle nad yw hawliau pobl wedi cael eu cynnal ac mae'n darparu tystiolaeth bwysig i gefnogi fy ngalwadau am weithredu gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill. Mae'r dystiolaeth yr wyf yn ei chasglu yn helpu i lywio a siapio fy ngwaith, fy mlaenoriaethau a fy nghynlluniau fel Comisiynydd.

"Roedd fy ngweithiwr achos yn golofn o gryfder i mi pan oeddwn yn mynd drwy gŵyn emosiynol anodd."

Adborth gan berson hŷn

"Mae'r cyngor prydlon, defnyddiol a phroffesiynol a roddwyd wedi gwneud argraff fawr arnaf. Yn ystod fy ymholiad ffôn cychwynnol, roeddwn i'n teimlo bod rhywun yn gwrando arna i ac yn deall fy ymholiad. Dilynwyd hyn y diwrnod gwaith nesaf gan ddogfennau perthnasol a'r rhannau mwyaf perthnasol wedi'u hamlygu. Mae fy nheulu'n mynd drwy gyfnod anodd, yn ceisio negodi gofal ar gyfer fy nhad sy'n dod i ddiwedd ei oes – mae cael cefnogaeth y gwasanaeth hwn wedi golygu llawer. Diolch."

Adborth gan Aelod o'r Teulu

"Rhoddodd fy Ngweithiwr Achos gyngor a chymorth rhagorol. Bydd ein sefyllfa'n esblygu dros amser ac rwy'n gwybod y byddaf yn cael cymorth cefnogol pan fydd ei angen nesaf. Gwasanaeth gwych."

Adborth gan berson hŷn

Estyn allan at bobl hŷn ac ymgysylltu â nhw

Drwy gydol 2023-24, roedd ymgysylltu rheolaidd â phobl hŷn ledled Cymru yn dal yn ffocws allweddol i mi a'm tîm er mwyn clywed yn uniongyrchol am brofiadau pobl o fynd yn hŷn.

Mae ymweliadau a digwyddiadau ymgysylltu yn galluogi pobl hŷn i drafod y materion a'r heriau sy'n effeithio ar eu bywydau ac, yn bwysig, i rannu eu barn, eu syniadau a'u harbenigedd ynghylch sut y gellir mynd i'r afael â'r rhain yn effeithiol.

Teithiodd fy nhîm a minnau ledled Cymru i gwrdd a siarad â phobl hŷn, mewn grwpiau fel fforymau pobl hŷn, grwpiau Men's Sheds a Sefydliad y Merched a grwpiau cymdeithasol eraill, yn ogystal â grwpiau sy'n cynnig cymorth penodol i bobl hŷn, fel grwpiau sy'n cefnogi pobl sy'n byw gyda dementia.

Rwyf wedi parhau i gwrdd yn rheolaidd â Chadeiryddion grwpiau pobl hŷn allweddol – Cymru Egnïol, Cynghrair Pobl Hŷn Cymru, a Fforwm Pobl Hŷn Cymru y Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol – i glywed ganddynt am brofiadau eu haelodau a rhannu gwybodaeth a diweddariadau allweddol.

Er mwyn estyn allan at bobl hŷn nad ydynt ar-lein, rwyf wedi gweithio gyda sefydliadau ledled Cymru i ddosbarthu fersiynau papur o ganllawiau gwybodaeth ac adnoddau defnyddiol eraill, yn ogystal â defnyddio cylchlythyrau a phosteri i wahodd pobl hŷn i rannu eu profiadau. Rwyf hefyd wedi defnyddio fy sianeli cyfryngau cymdeithasol – yn enwedig Facebook, sy'n cael ei ddefnyddio gan lawer o bobl hŷn – i estyn allan at bobl hŷn ledled Cymru a rhannu gwybodaeth ac adnoddau allweddol.

Mae'r ymgysylltu hwn yn helpu i arwain fy ngwaith fel Comisiynydd, ac yn sicrhau bod lleisiau pobl hŷn yn cael eu clywed a'u gweithredu gan wneuthurwyr polisi a phenderfyniadau, gan gefnogi fy ngwaith i ddylanwadu ar bolisïau ac arferion ledled Cymru.

Ymgysylltu â sefydliadau sy'n rhanddeiliaid

Drwy gydol 2023-24, roedd fy nhîm a minnau wedi ymgysylltu â sefydliadau ledled Cymru, y DU, ac yn ehangach, i rannu gwybodaeth, dylanwadu ar bolisïau ac arferion, lledaenu negeseuon allweddol, a chasglu tystiolaeth a data am brofiadau pobl hŷn.

Roedd hyn yn cynnwys dod â sefydliadau allweddol at ei gilydd ar gyfer cynadleddau, gweminarau a digwyddiadau bwrdd crwn (fel y nodwyd uchod), yn ogystal â chyfrannu at amrywiaeth o grwpiau a rhwydweithiau cynghori. Roedd fy nhîm a minnau hefyd wedi cynnal cyfarfodydd gyda sefydliadau allweddol i drafod ac archwilio materion strategol a gweithredol penodol sy'n effeithio ar bobl hŷn.

Ar ben hynny, rhoddais brif areithiau mewn cynadleddau a gweminarau – ar faterion fel mynd i'r afael ag oedraniaeth, diogelu hawliau pobl hŷn a phwysigrwydd gwneud cymunedau'n oed-gyfeillgar – i sicrhau bod lleisiau pobl hŷn yn cael eu clywed, siapio trafodaethau a dadleuon a dylanwadu ar syniadau a phenderfyniadau ar lefel Cymru, y DU ac yn rhyngwladol.

Rwyf hefyd wedi cynnal ac adeiladu ar bartneriaethau i sicrhau dull gweithredu cydgysylltiedig a strategol i fynd i'r afael â materion allweddol ac i ddarparu cyfleoedd i godi pryderon gyda llais cyfunol pwerus.

Er enghraifft, rwyf wedi parhau i arwain y Grŵp Gweithredu ar Atal Cam-drin a'r Grŵp Hawliau Cartref Gofal, yn ogystal â Rhwydwaith o sefydliadau pobl hŷn allweddol ledled y DU. Gan weithio mewn partneriaeth, mae'r grwpiau hyn wedi edrych ar faterion allweddol sy'n effeithio ar bobl hŷn – a'r camau y mae angen i lywodraethau eu cymryd i sicrhau bod y cymorth a'r gwasanaethau cywir ar waith wrth i ni heneiddio.

Ymgysylltu â Llywodraeth Cymru, Aelodau'r Senedd a Chyrff Cyhoeddus

Drwy gydol 2023-24, rwyf wedi parhau i ymgysylltu a gweithio'n adeiladol gyda Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill, ond rwyf hefyd wedi mynegi pryderon yn gyhoeddus ac wedi galw am welliannau heb betruso lle rwyf wedi teimlo nad yw polisïau a/neu arferion yn diogelu a chefnogi pobl hŷn yn ddigonol.

Mae ymgysylltu â Llywodraeth Cymru yn fy ngalluogi i fynegi materion sy'n effeithio ar bobl hŷn yn uniongyrchol, a phwyso arnynt i weithredu i fynd i'r afael â'r rhain. Yn ystod 2023-24, mae hyn wedi cynnwys:

- Cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol, i drafod materion parhaus a rhai sy'n dod i'r amlwg a chamau gweithredu gofynnol.
- Cyflwyno tystiolaeth gydag Age Cymru ar effaith yr argyfwng costau byw ar bobl hŷn, a'r camau gweithredu sy'n ofynnol, i aelodau Cabinet Llywodraeth Cymru, ac yna cyflwyno papur briffio.
- Cwrdd â'r Gweinidog Iechyd i fynegi pryderon bod pobl hŷn yn cael eu hatal rhag cael mynediad at wasanaethau iechyd oherwydd y pwysau ar y GIG, ac i drafod materion allweddol eraill gan gynnwys mynediad at feddygon teulu, parhad gofal, allgáu digidol a phwysigrwydd gofal cymdeithasol o ran atal.
- Cwrdd â Gweinidog yr Economi i drafod y camau sydd eu hangen i sicrhau bod pobl hŷn yn cael cymorth i aros mewn gwaith neu ddychwelyd i waith.
- Cyfarfodydd gyda'r Gweinidog dros Gyllid a Llywodraeth Leol a'r Dirprwy Weinidog dros Bartneriaeth Gymdeithasol i archwilio sut y gellid gwella'r nifer sy'n hawlio Credyd Pensiwn, a materion cysylltiedig eraill.
- Darparu tystiolaeth am y problemau y mae pobl hŷn yn eu hwynebu oherwydd toriadau i wasanaethau bysiau mewn gohebiaeth â'r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd.

Ochr yn ochr â hyn, gweithiais gydag Aelodau'r Senedd yn ehangach, gan ddarparu tystiolaeth i ymchwiliadau pwyllgorau allweddol, ar faterion yn cynnwys cymorth i bobl â chyflyrau iechyd cronig, trais ar sail rhywedd, Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru a defnyddio'r cerdyn bws rhatach, i sicrhau bod profiadau pobl hŷn yn cael eu deall yn well ac yn cael eu hadlewyrchu mewn argymhellion a galwadau am weithredu a wneir gan Bwyllgorau'r Senedd.

Ar ben hynny, rwyf wedi cwrdd ag Aelodau o bob plaid i rannu gwybodaeth a gwybodaeth am brofiadau pobl o heneiddio, ac i drafod y polisïau a'r camau gweithredu sydd eu hangen i wella bywydau pobl hŷn, ynghyd â darparu sesiynau briffio ysgrifenedig cyn dadleuon allweddol, er mwyn llywio a siapio'r drafodaeth a'r ddadl.

Rwyf hefyd wedi parhau i gwrdd ac ymgysylltu'n rheolaidd â sefydliadau allweddol eraill fel y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, Conffederasiwn GIG Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae hyn wedi fy ngalluogi i dynnu sylw at y materion sy'n effeithio ar bobl hŷn, mynegi pryderon a galw am weithredu lle bo angen, yn ogystal â nodi cyfleoedd i gydweithio er budd pobl hŷn.

Mae aelodau o fy nhîm wedi cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o fyrddau a rhwydweithiau cynghori i sicrhau bod profiadau pobl hŷn yn cael eu clywed a'u deall, a'u bod yn cael eu defnyddio i siapio polisïau ac arferion, ynghyd ag ymateb i ymgynghoriadau allweddol sy'n rhoi sylw i ystod o faterion sy'n effeithio ar fywydau pobl hŷn.

Mae'r Grŵp Trawsbleidiol ar Undod Rhwng Cenedlaethau, y cefnogais ei sefydlu yn 2020 i ddod ag Aelodau'r Senedd, ymchwilwyr academaidd allweddol, ymarferwyr sydd â phrofiad o redeg prosiectau pontio'r cenedlaethau, a chynrychiolwyr pobl hŷn ac iau, at ei gilydd, wedi parhau i gefnogi camau i gryfhau'r cysylltiadau rhwng cenedlaethau a hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau sy'n pontio'r cenedlaethau. Roedd gwaith y grŵp yn ystod 2023-24 yn canolbwyntio ar nifer o faterion allweddol, gan gynnwys mynd i'r afael ag oedraniaeth, gwella mynediad at wasanaethau, a chreu cymdeithas fwy cynhwysol.

Lle mae materion sy'n effeithio ar bobl hŷn yng Nghymru yn ymwneud â materion sydd heb eu datganoli, rwyf hefyd yn ymgysylltu â'r llywodraeth a gwleidyddion ar lefel y DU. Yn ystod 2023-24 roedd hyn yn cynnwys darparu tystiolaeth ysgrifenedig a llafar i Ymchwiliad Pwyllgor Menywod a Chydraddoldeb Senedd y DU i hawliau pobl hŷn, a oedd yn ymdrin â nifer o faterion allweddol gan gynnwys hawliau dynol, effaith oedraniaeth ac i ba raddau mae'n digwydd, cynrychiolaeth pobl hŷn yn y cyfryngau a phwysigrwydd cysylltiadau a pherthnasoedd rhwng cenedlaethau.

Gweithio gyda'r cyfryngau

Mae gweithio gyda'r cyfryngau yn fy ngalluogi i godi ymwybyddiaeth o faterion a phryderon sy'n effeithio ar bobl hŷn, tynnu sylw at brofiadau pobl hŷn, trafod y camau sydd eu hangen i gyflawni newid a gwelliannau, a chynnig gwybodaeth a sylwadau ar ystod eang o bolisïau ac arferion.

Rwyf wedi cynnal presenoldeb cryf ar y cyfryngau drwy gydol 2023-24, gan gyhoeddi datganiadau a datganiadau i'r wasg ar amrywiaeth eang o faterion i sicrhau cyfanswm o 123 o eitemau newyddion drwy sylw mewn papurau newydd cenedlaethol a lleol, gan gynnwys cyhoeddiadau ledled y DU, a thrwy gymryd rhan mewn cyfweliadau â rhaglenni newyddion ar y radio a'r teledu. Yn ystod 2023-24, arweiniodd hyn at dros 1,205,508,336 o 'gyfleoedd i weld' eitemau newyddion sy'n ymwneud â'm gwaith.

Mae pobl hŷn wedi dweud wrthyf eu bod yn gwerthfawrogi fy ngweld yn hyrwyddwr llafar dros eu hawliau ac yn mynegi pryderon yn gyhoeddus am y materion sy'n effeithio arnynt, ac mae pobl hŷn a'u teuluoedd yn aml yn cysylltu â'm Gwasanaeth Cyngor a Chymorth o ganlyniad i weld cyfweliad a roddais.

Ochr yn ochr â hyn, fe wnes i hefyd gyfrannu erthyglau a blogiau i gyhoeddiadau a gwefannau rhanddeiliaid i lywio trafodaeth a dadl ar nifer o bynciau allweddol gan gynnwys mynediad at feddygon teulu, gwella cymorth i ddynion hŷn sy'n cael eu cam-drin, hawliau pobl hŷn, a mynd i'r afael ag oedraniaeth.

Cymru lle mae pobl hŷn yn cael eu gwerthfawrogi, lle mae hawliau'n cael eu cynnal a lle nad oes neb yn cael ei adael ar ôl

Mae'r chwe blynedd ers i mi ddechrau yn fy swydd fel Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru wedi hedfan heibio. Mae wedi bod yn anrhydedd gwasanaethu fel Comisiynydd, a chael y cyfle i weithio gyda chynifer o bobl hŷn, grwpiau, sefydliadau a chyrff cyhoeddus i sbarduno a chyflawni newid a gwelliannau.

Ni fyddai llawer o'm gwaith ers 2018 wedi bod yn bosibl heb gefnogaeth ac anogaeth pobl hŷn ledled Cymru, felly diolch o galon i chi i gyd am eich cymorth hanfodol dros y blynyddoedd.

Wrth edrych yn ôl dros y chwe blynedd diwethaf, roedd pandemig Covid-19 yn enfawr, ac roedd y dystiolaeth a roddais i Ymchwiliad Covid-19 y DU (fel y nodwyd uchod) yn ffordd bwysig o'm hatgoffa o effaith sylweddol y pandemig ar lawer o bobl hŷn, y ffyrdd yr oedd hawliau pobl hŷn yn cael eu rhoi mewn perygl, a'r rôl a chwaraeais wrth nodi'r mathau hyn o broblemau a galw am weithredu i ddiogelu pobl hŷn.

Ond, yn ystod y cyfnod hwn, fel y dywedodd person hŷn mor huawdl yn fy Adroddiad Gadael Neb ar Ôl, "Roedd pethau da hefyd yn digwydd yn groes i ddisgwyliadau". Gwelsom y gorau ynom wrth i bobl ofalu am ei gilydd, helpu ei gilydd, dod i adnabod ei gilydd – weithiau am y tro cyntaf. Roedd yr ysbryd cymunedol hwn mor werthfawr, ac roedd yn braf gweld bod 'ymdeimlad cryf o gymuned' yn cael ei amlygu fel y peth gorau am heneiddio yng Nghymru gan ddwy ran o dair o'r bobl hŷn a gymerodd ran yn fy mhôl piniwn diweddar.

Yn ystod fy nghyfnod fel Comisiynydd, rwyf wedi canolbwyntio ar wneud cynnydd ar bedair blaenoriaeth: diogelu a hyrwyddo hawliau pobl hŷn; rhoi diwedd ar oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oedran; atal cam-drin pobl hŷn; a galluogi pawb i heneiddio'n dda.

Nid yw'n bosibl cyflawni unrhyw un o'r rhain drwy weithio ar eich pen eich hun – dim ond drwy weithio gyda phobl hŷn a sefydliadau ledled Cymru yr ydym wedi gallu gwneud cynnydd. Dyma rai enghreifftiau allweddol sy'n dod i'r meddwl.

- Cynhyrchu canllawiau ar hawliau pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal, gyda chymorth arbenigwyr ledled y DU. Mae'r canllawiau wedi mynd i bob cartref gofal yng Nghymru yn ogystal â chael eu hyrwyddo drwy'r wasg leol a digwyddiadau.
- Darparu hyfforddiant ar oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oedran a thynnu sylw ato pan fyddaf yn ei weld.
- Sefydlu Grŵp Gweithredu ar Atal Cam-drin o dros 30 o sefydliadau – sydd bellach yn rhwydwaith bywiog o sefydliadau ac unigolion sy'n gweithio gyda'i gilydd – a sicrhau Cynllun Gweithredu Cenedlaethol cyntaf erioed Llywodraeth Cymru i Atal Cam-drin Pobl Hŷn.

- Arwain y ffordd i wneud Cymru yn genedl oed-gyfeillgar drwy annog a chefnogi awdurdodau lleol a'u partneriaid i ymrwymo i fod yn oed-gyfeillgar, sefydlu cynlluniau, gweithredu, ac ymuno â'r Rhwydwaith Byd-eang.

Ochr yn ochr â hyn, rwyf wedi ymgysylltu â phobl hŷn ledled Cymru, ynghyd â chraffu ar bolisïau a phenderfyniadau (a'u herio lle bo angen) a wneir gan gyrff cyhoeddus a Llywodraeth Cymru. Un enghraifft o hyn yr wyf yn arbennig o falch ohono oedd llwyddo i gael Llywodraeth Cymru i wrthdroi ei phenderfyniad i gynyddu'r oedran cymhwyso ar gyfer y tocyn bws, fel ei bod yn parhau'n 60 oed. Heb y newid hwn, byddai tua 300,000 o bobl hŷn wedi bod ar eu colled.

Wrth gwrs, mae mwy i'w wneud o hyd, a llawer o heriau ac anawsterau yn wynebu pobl hŷn, yn enwedig o ganlyniad i'r pandemig, yr argyfwng costau byw, a'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus.

Er gwaethaf yr heriau, rwy'n gwybod bod gan Gymru sylfeini cryf i adeiladu arnynt ac y bydd ganddi fwy o gyfleoedd i arwain y ffordd o ran sut mae'n gwerthfawrogi ac yn cefnogi pobl hŷn.

Wrth i mi adael fy swydd, rydw i hefyd yn gwybod y bydd fy nhîm ymroddedig, sy'n frwd dros wneud gwahaniaeth cadarnhaol i bobl hŷn ledled Cymru, yn cefnogi fy olynydd i adeiladu ar y gwaith rydyn ni wedi'i wneud gyda'n gilydd, ac yn gweithio dros Gymru lle mae pobl hŷn yn cael eu gwerthfawrogi, lle mae hawliau'n cael eu cynnal, ac nad oes neb yn cael ei adael ar ôl

Diolch o galon

Heléna

Adolygiad o gyllid a pherfformiad ariannol

Cyllid

Yn y cronfeydd wrth gefn statudol ar ddiwedd y flwyddyn (Mawrth 2024), roedd £103,000 (£123,000: 31 Mawrth 2023).

Perfformiad Ariannol 2023-24

Mae Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr 2023-24 yn £1,657,000 (2022-23: £1,538,000).

Yn ystod 2023-24, defnyddiais 98% o'r gyllideb adnoddau a ddyrannwyd i mi gan Lywodraeth Cymru.

Crynodeb o'r rhagolwg ariannol

Ym mis Rhagfyr 2022, croesewais gydnabyddiaeth Llywodraeth Cymru o'r heriau cyllido sylweddol a wynebais, a oedd yn sgil pwysau chwyddiant diweddar a gofynion llywodraethu cynyddol gymhleth. Mewn ymateb i fy Amcangyfrif ar gyfer 2023-24, cynyddodd Llywodraeth Cymru fy nghyllideb llinell sylfaen ar gyfer 2023-24 o £1,589,000 i £1,684,000. Sicrhaodd y cyllid ychwanegol nad oedd angen i mi, yn y tymor byr, ystyried ailstrwythuro'r sefydliad a bod gennyf gyllideb ddigonol ar gyfer fy rhaglen waith ar gyfer 2023-24.

Ym mis Hydref 2023, cyflwynais Amcangyfrif 2024-25 i Lywodraeth Cymru yn gofyn am gyllideb o £1,739,000, a fyddai'n gynnydd bychan o £55,000 (3.3%), gan dynnu sylw at risgiau parhau â chyllideb wastad. Ym mis Rhagfyr 2023, cefais wybod gan swyddogion Llywodraeth Cymru y byddai cyllideb fy sefydliad yn gostwng oherwydd y pwysau difrifol ar eu cyllideb nhw. Y gyllideb a ddarperir ar gyfer 2024-25 yw £1,616,000, sy'n £123,000 neu 7.1% yn llai na'r gyllideb y gofynnwyd amdani.

Ar ôl cael fy hysbysu am gyllideb 2024-25, cynhaliais adolygiad cynhwysfawr ar fy nghynllun ariannol tymor canolig i nodi arbedion cost. O ystyried mai costau staff oedd y pwysau mwyaf sylweddol ar fy nghyllideb (a bod hynny'n dal yn wir), roedd yn rhaid ailedrych ar strwythur y sefydliad a'r swyddi gwag o fewn y strwythur honno. Penderfynais beidio â recriwtio i swyddi wag a gweithredu cynllun Ymadael Gwirfoddol, gan arwain at arbedion o tua £92,000 (gan gynnwys argostau) y flwyddyn. O ganlyniad, lliniarwyd y pwysau ar gyllideb 2024-25.

Ar gyfer fy sefydliad, rwy'n credu mai tua 75% yw'r lefel costau sefydliad staff mwyaf cynaliadwy yn erbyn y dyraniad cyllid, ac maen nhw'n 76% ar hyn o bryd ar gyfer 2024-25. Mae cadw costau staff ar y lefel hon yn helpu i sicrhau bod digon o gyllideb ar gael i fynd i'r afael â phwysau eraill o ran costau fel costau seibergadernid, cydymffurfiad rheoleiddiol (gan gynnwys ffioedd archwilio a chyfieithu), costau llety a bod digon o gyllideb ar gael o hyd i gyflawni fy nyletswyddau statudol a'r rhaglen waith gysylltiedig.

Mae'r cynllun ariannol tymor canolig yn dangos bod pwysau o hyd ar y gyllideb, a disgwylir y bydd diffyg o £32,000 yn 2025-26 a £71,000 yn 2026-27.

Dolen i'r wefan: Amcangyfrifon y Comisiynydd

Heléna Herklots CBE
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
20 Awst 2018 – 19 Awst 2024

Kelly Davies[1]
Dirprwy Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru
19 Medi 2024

1 Gan fod cyfnod Heléna Herklots yn y swydd Comisiynydd wedi dod i ben ar 19 Awst 2024, Kelly Davies fydd yn llofnodi'r Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol yn ei rôl fel y Dirprwy Gomisiynydd a Swyddog Cyfrifyddu, yn unol â Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006.

Adroddiad ar Gynaliadwyedd

Ym mis Ionawr 2022, drwy ymgynghori'n helaeth â staff, cyflwynais bolisi gweithio hybrid a roddodd gyfle i staff weithio'n fwy hyblyg a chael gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, gan sicrhau cymaint o arbedion effeithlonrwydd ac allbynnau a phosibl. Drwy gyflwyno'r polisi hwn galluogwyd staff i barhau i wneud penderfyniadau am eu hamgylchedd gwaith ac mae wedi cael effaith gadarnhaol ar ôl troed carbon y sefydliad.

Bellach, mae gweithio o bell wedi dod yn rhan annatod o'n harferion ac mae manteision amgylcheddol cadarnhaol clir, sy'n cynnwys llai o deithio oherwydd cyfarfodydd ar-lein a gweithio'n ddi-bapur. Gan fod staff yn dal i gael eu cefnogi i weithio o bell, bu gostyngiad sylweddol yn y gofod swyddfa sydd ei angen i ddiwallu anghenion y sefydliad. Yn ystod 2022/23 fe wnes i leihau fy ngofod swyddfa o dros 75% o 4,640 troedfedd sgwâr i 976 troedfedd sgwâr, sydd hefyd wedi arwain at arbed costau sylweddol.

Mae fy swyddfa wedi'i lleoli ym Mae Caerdydd o hyd, ac mae ganddi gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus rhagorol. I annog teithio llesol, mae cyfleusterau storio beiciau a chawodydd ar gael yn yr adeilad hefyd.

Pan fydd staff yn cwrdd â rhanddeiliaid wyneb yn wyneb, fe'u hanogir i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu rannu ceir.

Gan fy mod yn rhentu swyddfa fach yn Adeiladau Cambrian, ychydig o ddylanwad sydd gennyf dros gyflenwad a darpariaeth dŵr, trydan neu nwy gan fod y tâl gwasanaeth yn cynnwys y costau hyn. Fodd bynnag, yn fy ngofod swyddfa fy hun rwyf wedi sicrhau bod goleuadau LED yn effeithlon o ran ynni a bod falfiau a reolir yn thermostatig ar bob gwresogydd.

Dolen i'r wefan: Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a'r Strategaeth Cynaliadwyedd

Heléna Herklots CBE
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
20 Awst 2018 – 19 Awst 2024

Kelly Davies[1]
Dirprwy Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru
19 Medi 2024

1 Gan fod cyfnod Heléna Herklots yn y swydd Comisiynydd wedi dod i ben ar 19 Awst 2024, Kelly Davies fydd yn llofnodi'r Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol yn ei rôl fel y Dirprwy Gomisiynydd a Swyddog Cyfrifyddu, yn unol â Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006

Adroddiad Atebolrwydd

Mae fy Adroddiad Atebolrwydd yn amlinellu prif nodweddion y ffordd rwy'n rheoli'r sefydliad.

Mae'r adran hon yn cynnwys:

- Fy adroddiad Llywodraethu Corfforaethol, sy'n cynnwys manylion ynghylch sut rwy'n dangos cydymffurfiaeth a gwaith llywodraethu corfforaethol cadarn.
- Mae fy Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth a Staff yn darparu gwybodaeth am gyflogau uwch reolwyr, fy natgeliad cyflog teg a gwybodaeth am faterion eraill sy'n ymwneud â chyflogaeth.
- Mae Adroddiad yr Archwiliad yn cynnwys barn derfynol ein harchwilydd am y datganiadau ariannol.

Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

Mae gwybodaeth am fy strwythur llywodraethu, gan gynnwys fy Uwch Dîm Rheoli a'm Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, i'w gweld yn fy Natganiad Llywodraethu ar dudalennau 43 i 52. Mae'r wybodaeth hon ar fy ngwefan hefyd.

Dolen i'r wefan: Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Dirprwy Gomisiynydd

Bydd fy nghyfnod i fel Comisiynydd yn dod i ben ar 19 Awst 2024, a bydd cyfnod interim cyn i'r Comisiynydd newydd ddechrau ar y swydd.

Yn unol â Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 (y Ddeddf), Atodlen 1, Paragraff 4 (3) caiff y Dirprwy Gomisiynydd gyflawni swyddogaethau'r Comisiynydd pan fydd swydd y Comisiynydd yn wag neu unrhyw bryd na fydd y Comisiynydd, am unrhyw reswm, yn gallu gweithredu. Bydd angen llofnodi'r cyfrifon blynyddol yn ystod y cyfnod interim hwn, felly bydd Kelly Davies, fel Dirprwy Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, yn gwneud hynny.

Codi pryderon

Ym mis Tachwedd 2016, daeth rôl y Comisiynydd yn 'berson rhagnodedig' o dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 (y Ddeddf) ar gyfer materion yn ymwneud â hawliau a lles pobl hŷn yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn amddiffyn gweithwyr sy'n chwythu'r chwiban, ar yr amod bod y gweithiwr sy'n cyflwyno'r datgeliad yn credu'n rhesymol ei fod yn berthnasol i gylch gwaith y Comisiynydd a bod y wybodaeth sy'n cael ei datgelu ac unrhyw honiadau a geir ynddi yn wir gan fwyaf.

Nid yw'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'm swyddfa ymchwilio i bob datgeliad a ddaw i law, gan mai dim ond datgeliadau sy'n dod o fewn cwmpas fy swyddogaethau statudol ac o fewn paramedrau fy mhwerau statudol y mae modd i mi ymchwilio iddynt.

Ni chafodd unrhyw bryderon eu cyfeirio ataf o ganlyniad i fy rôl fel 'person rhagnodedig' yn ystod 2023-24 (2022-23: dim).

Yr Iaith Gymraeg

Ers 25 Ionawr 2017, rwyf wedi ymrwymo i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, fel y nodir gan Lywodraeth Cymru o dan Adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Mae Safonau'r Gymraeg yn nodi nifer o ffyrdd y mae'n rhaid i mi ddarparu a hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg, a hwyluso a hybu'r defnydd o'r iaith yn y gweithle.

Yn ystod 2023-24, rwyf wedi cydymffurfio â'r holl Safonau ac wedi parhau i ddangos fy ymrwymiad i sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal.

Yn ystod 2023-24, ni dderbyniwyd unrhyw gwynion o dan gydymffurfiaeth polisi cwynion Safonau'r Gymraeg (2022-23: dim).

Ar 31 Mawrth 2024, roeddwn yn cyflogi 18 aelod o staff. Cynhaliwyd arolwg y Gymraeg yn ystod mis Mawrth 2024. Roedd yn gofyn i staff hunanasesu eu sgiliau gan ddefnyddio matrics rhuglder ar gyfer Gwrando, Darllen, Ysgrifennu a Siarad. Ymatebodd yr holl staff i'r arolwg, fel y gwnes i. Dangosodd y canlyniadau fod 37% o'r sefydliad yn ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg rhugl.

Rwy'n parhau i ddarparu cyfleoedd wedi eu hariannu'n llawn yn ystod oriau gwaith i staff gael hyfforddiant Iaith Gymraeg. Yn ystod 2023-24, manteisiodd un aelod o staff ar y cyfle hwn am hyfforddiant.

Dolen i'r wefan: Safonau'r Gymraeg

Cynllun cydraddoldeb strategol

Fel hyrwyddwr a llais annibynnol ar ran pobl hŷn ledled Cymru, rwy'n gweithio i hyrwyddo cydraddoldeb ym mhob agwedd ar fywydau pobl hŷn.

Mae llawer o'r materion sy'n wynebu pobl hŷn yn seiliedig ar anghydraddoldeb a methiant i gydnabod a chynnal eu hawliau. Rwy'n gweithio i sicrhau bod gan bob person hŷn yng Nghymru lais, bod y cyfraniad y mae pobl hŷn yn ei wneud i'n bywydau a'n cymdeithas yn cael ei gydnabod, a bod profiadau pobl o bob cefndir yn cael eu defnyddio i wella polisïau ac arferion.

Felly, mae deall yr holl amrywiaeth o brofiadau bywyd pobl hŷn yn hanfodol i sicrhau bod cymorth a gwasanaethau'n diwallu anghenion pobl, a bod adnoddau'n cael eu cyfeirio'n briodol.

Roedd ymgysylltu â phobl hŷn yng Nghymru yn hollbwysig yn y gwaith o lunio fy Amcanion Cydraddoldeb ar gyfer 2020-24. Er mwyn sicrhau bod cydraddoldeb yn rhan annatod o holl weithgarwch y sefydliad, mae'r Amcanion Cydraddoldeb yn adlewyrchu gweledigaeth a gwerthoedd y sefydliad yn agos, ac yn cyd-fynd yn agos â'r Strategaeth.

Gosodwyd yr amcanion canlynol ar gyfer 2020-24:

1. Hyrwyddo amrywiaeth yn fy ngweithlu a sicrhau cyfleoedd cyfartal i'm holl weithwyr.
2. Sicrhau bod cydraddoldeb yn llywio prosesau mewnol, gan gynnwys wrth wneud penderfyniadau strategol.
3. Sicrhau bod fy ngwaith yn adlewyrchu amrywiaeth ymhlith pobl hŷn drwyddi draw er mwyn gwneud Cymru y lle gorau yn y byd i heneiddio.
4. Rhoi cymorth a chefnogaeth i amrywiaeth eang o bobl hŷn i sicrhau bod eu hawliau'n cael eu hamddiffyn ac nad oes neb yn gwahaniaethu yn eu herbyn.
5. Sicrhau bod fy ngwaith yn seiliedig ar brofiadau amrywiaeth eang o bobl hŷn a'i fod yn berthnasol i bawb.

Byddaf yn cyhoeddi adroddiad cynnydd 2023-24 yn erbyn yr amcanion hyn erbyn 30 Medi 2024.

Ym mis Ebrill 2024, lansiais Gynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024 - 2026 sy'n nodi'r camau gweithredu a fydd yn cael eu cymryd dros gyfnod o ddwy flynedd i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ymhellach yn ein gwaith mewnol ac allanol. Mae'r Cynllun yn cwmpasu cyfnod o ddwy flynedd er mwyn gallu pontio i gyfnod Comisiynydd newydd ym mis Awst 2024. Yn ystod y cyfnod hwn, drwy ymgysylltu â phobl hŷn yng Nghymru, bydd Cynllun pedair blynedd newydd yn cael ei ddatblygu sy'n cyd-fynd â gweledigaeth a gwerthoedd y sefydliad, yn ogystal â'r Cynllun Strategol newydd.

Dolen i'r wefan: Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Trefniadau Pensiwn

Rwyf fi a'r staff a gyflogir yn uniongyrchol gennyf yn gymwys i fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Ceir manylion pellach yn yr Adroddiad ar Staff a Thaliadau.

Polisi Taliadau

Rwy'n gwneud fy ngorau i gydymffurfio â Pholisi Taliadau Prydlon Llywodraeth Cymru. Y targed yw gwneud taliadau o fewn dyddiau i dderbyn anfonebau nad oes anghytuno yn eu cylch ar gyfer nwyddau a gwasanaethau a dderbyniwyd.

Roedd perfformiad taliadau'r flwyddyn, ar gyfartaledd, yn 97.57% o daliadau prydlon (98.21% yn 2022-23). Ni thalwyd llog oherwydd taliadau hwyr.

Llywodraethu Gwybodaeth

I gydnabod pwysigrwydd hanfodol rheoli risgiau diogelwch sy'n ymwneud â rheoli data, ym mis Mawrth 2024 llwyddodd fy sefydliad i ennill achrediad Lefel Dau IASME (Sicrwydd Gwybodaeth i Fentrau Bach a Chanolig), a fydd yn cefnogi'r achrediad Cyber Essentials Plus sydd gan fy sefydliad eisoes.

Mae diogelu data personol yn bwysig iawn, ac yn ystod y flwyddyn, rwyf wedi parhau i weithio i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data, gan gynnwys y Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018.

Mae trefniadau ar waith i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chadw'n ddiogel. Mae hyn yn cynnwys data personol a gedwir sy'n ymwneud ag ymholiadau a wnaed ar ran pobl hŷn yng Nghymru, a thystiolaeth a gasglwyd gennyf fi wrth gyflawni fy swyddogaethau. Yn 2023-24, ni chafwyd unrhyw achosion cysylltiedig â diogelwch data (2022-23: dim).

Yn ystod 2023-24, cefais gais am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (2022-23: 3) Ymatebwyd i bob cais o fewn yr amserlenni penodol.

Ni chefais unrhyw Geisiadau am Fynediad at Ddata gan y Testun (2022-23: 0).

Cofrestri

Byddaf yn cyhoeddi manylion am fy nhreuliau fy hun – y rhai uniongyrchol a'r rhai a geir ar fy rhan – ar fy ngwefan bob chwarter. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn edrych yn ofalus ar fy nhreuliau ym mhob cyfarfod.

Dolen i'r wefan: Treuliau'r Comisiynydd

Rwy'n cadw cofrestr o'r holl roddion a'r lletygarwch sydd wedi'u derbyn a'u gwrthod, yn rhinwedd fy nyletswyddau swyddogol. Caiff y gofrestr hon ei diweddaru bob chwarter a'i chyhoeddi ar fy ngwefan. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn adolygu'r gofrestr hon ym mhob cyfarfod.

Dolen i'r wefan: Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch

Gwrthdaro rhwng buddiannau

Fel rhan o'u telerau penodi, mae gofyn i holl weithwyr cyflogedig ac aelodau fy Mhwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg fabwysiadu egwyddorion bywyd cyhoeddus Nolan. Yr egwyddorion hyn, ynghyd â'm diwylliant a'm gwerthoedd corfforaethol, yw'r sail i'm Cod Ymddygiad. Mae'n rhaid i weithwyr cyflogedig ac aelodau'r Pwyllgor ddilyn y Cod hwn a'i gadw'n gyfredol.

Mae'r Cod Ymddygiad yn nodi bod holl weithwyr cyflogedig ac aelodau fy Mhwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cymryd camau i osgoi gwrthdaro rhwng buddiannau, drwy gofrestru a datgan unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau personol a gwaith y Comisiynydd wrth iddynt godi.

Mae cofrestr o Fuddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill Cyfarwyddwyr ac aelodau Pwyllgor ar gael ar fy ngwefan.

Dolen i'r wefan: Cofrestr Buddiannau

Trafodion partïon cysylltiedig

Yn ystod 2023-24, nid oeddwn i nac unrhyw aelod arall o'm Uwch Dîm Rheoli na'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, nac unrhyw aelod o'u teuluoedd, yn ymwneud yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol ag unrhyw drafodion gyda'r swyddfa yn ystod y flwyddyn, ac eithrio'r taliadau cyflog a'r hawliadau arferol am dreuliau.

Trefniadau archwilio

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn archwilio'r Cyfrifon hyn, yn unol â pharagraff 12, Atodlen 1 o Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Cost archwilio cyfrifon 2023-24 yw £19,000 (£16,000: 2022-23). Ni chynhaliwyd unrhyw waith archwilio anstatudol ychwanegol yn ystod 2023-24 (£dim: 2022-23).

Yn ystod 2020-21, ymgymerais â thendr ar y cyd ar gyfer gwasanaethau archwilio mewnol gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Comisiynydd Plant Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg. Dyfarnwyd contract tair blynedd i TIAA Ltd, a oedd yn dechrau ym mis Ebrill 2021, gydag opsiwn i ymestyn y contract hwnnw am ddwy flynedd arall. Mae'r Ombwdsmon, y Comisiynwyr eraill a minnau wedi cytuno y byddwn yn ymestyn y contract hwn ar y cyd o flwyddyn arall hyd at 2025, pryd y byddwn unwaith eto'n tendro am y gwasanaeth archwilio mewnol.

Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Ni chafwyd digwyddiadau o bwys rhwng diwedd y flwyddyn ac adeg cymeradwyo'r cyfrifon hyn.

Datgelu gwybodaeth archwilio berthnasol

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n ymwybodol nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilydd yn ymwybodol ohoni, ac rwyf wedi cymryd yr holl gamau angenrheidiol i sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol, ac i sicrhau bod yr archwilwyr hefyd yn ymwybodol o'r wybodaeth honno..

Heléna Herklots CBE
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
20 Awst 2018 – 19 Awst 2024

Kelly Davies[1]
Dirprwy Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru
19 Medi 2024

1 Gan fod cyfnod Heléna Herklots yn y swydd Comisiynydd wedi dod i ben ar 19 Awst 2024, Kelly Davies fydd yn llofnodi'r Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol yn ei rôl fel y Dirprwy Gomisiynydd a Swyddog Cyfrifyddu, yn unol â Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006.

Datganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

Yn unol â Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, (y Ddeddf), Atodlen 1, Paragraff 10, rhaid i mi:

- Cadw cofnodion cyfrifyddu priodol; a
- paratoi cyfrifon mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol yn unol â chyfarwyddiadau a roddir, gyda chydsyniad y Trysorlys, gan Weinidogion Cymru.

Mae'r cyfrifon hyn yn cael eu paratoi ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, ei incwm a'i wariant, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, a'r llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i mi gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, ac yn benodol:

- glynu wrth y Cyfarwyddyd Cyfrifon, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a defnyddio polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol fel y nodir hwy yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau o bwys yn y cyfrifon; a
- pharatoi'r cyfrifon ar sail busnes hyfyw.

Yn ogystal, gallaf gadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ar y cyfan, ac rwy'n cymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon a'r dyfarniadau sydd eu hangen i benderfynu bod y rhain yn deg, yn gytbwys, ac yn ddealladwy.

Mae Prif Weinidog Cymru wedi fy mhenodi'n Swyddog Cyfrifyddu Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu yn cynnwys y cyfrifoldeb dros briodoldeb a chysondeb y cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdano, dros gadw cofnodion priodol, a dros ddiogelu asedau'r Comisiynydd, fel y'u nodir yn y memorandwm - 'Rheoli Arian Cyhoeddus' - a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi, a 'Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru' a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd pob cam y dylwn i fod wedi eu cymryd i sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a bod archwilwyr yn Swyddfa Archwilio Cymru yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Cyn belled ag yr ydw i'n ymwybodol, does dim gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni.

Datganiad Llywodraethu

Cyfrifoldebau

Mae'r Datganiad Llywodraethu hwn yn nodi sail dyletswyddau statudol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, sut caiff fy ffordd o gyflawni fy nyletswyddau ei llywodraethu a'i rheoli, a sut rwyf i, fel Comisiynydd, yn cynnal atebolrwydd am yr hyn a wnaf i a'r sefydliad.

Rôl y Comisiynydd

Sefydlwyd swydd statudol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru fel Corfforaeth Unigol o dan Adran 1 o Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru)2006. (Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006).

Nodir fy nghyfrifoldebau fel y Swyddog Cyfrifyddu yn Natganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu.

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n gyfrifol am sefydlu a chynnal trefniadau priodol i reoli adnoddau, gan gynnwys trefniadau llywodraethu cadarn a chanfod a rheoli risgiau a chyfleoedd.

Fel Corfforaeth Undyn a'r Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn bersonol gyfrifol am gyfarwyddo a rheoli'r sefydliad. Fodd bynnag, mae Atodlen 1, Paragraff 5 o Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 yn datgan y "caiff unrhyw berson, gan gynnwys unrhyw aelod o'i staff, gyflawni swyddogaeth y Comisiynydd ar ei ran, i'r graddau a awdurdodir gan y Comisiynydd". Rwyf felly wedi sefydlu Cynllun Dirprwyo lle gall aelodau o fy nhîm sydd wedi'u pennu ymlaen llaw fy helpu i gyflawni fy nyletswyddau statudol. Nid yw'r Cynllun Dirprwyo hwn yn lleihau fy atebolrwydd fel y Swyddog Cyfrifyddu mewn unrhyw ffordd.

Gan nad oes gennyf Fwrdd Corfforaethol, fel y gallai fod gan gyrff cyhoeddus eraill yn nodweddiadol, mae gennyf Bwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (Pwyllgor) i'm cynorthwyo sydd yn rhoi sicrwydd ynghylch sut caiff y sefydliad ei lywodraethu, gan gynnwys rheoli risg, a phriodoldeb a chysondeb wrth ddefnyddio cyllid cyhoeddus.

Rwy'n annibynnol ar Weinidogion ac, yn ddarostyngedig i Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, yn gyfrifol am bennu cyfeiriad strategol fy swyddfa.

Rwy'n atebol i Senedd Cymru am fy ngweithredoedd i a gweithredoedd fy swyddfa. Gall y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus graffu ar fy adroddiad blynyddol a'm cyfrifon ac ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y modd yr wyf yn defnyddio'r adnoddau a ddarperir i mi er mwyn cyflawni fy nyletswyddau statudol.

Strwythur Llywodraethu

Mae fy strwythur llywodraethu yn cynnwys Tîm Uwch-reolwyr (SMT) a Phwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC).

O dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, mae'n rhaid i mi enwebu Dirprwy a all gyflawni dyletswyddau statudol y Comisiynydd os yw'r swydd yn wag, neu os na fyddaf i yn gallu gweithredu unrhyw dro am unrhyw reswm. Fy Nirprwy enwebedig yw Kelly Davies, sydd hefyd yn Brif Swyddog Gweithredu fy swyddfa.

Tîm Uwch-reolwyr

Rwyf wedi sefydlu Tîm Uwch-reolwyr i sicrhau dull integredig o reoli risg, llywodraethu, monitro perfformiad a nodi camau unioni angenrheidiol. Yn ystod 2023-24, roedd y Tîm Uwch-reolwyr yn cynnwys y Prif Swyddog Gweithredu a'r Dirprwy Gomisiynydd, y Cyfarwyddwr Polisi, y Pennaeth Cyllid ac Adnoddau, a minnau.

Fel grŵp, cyfarfu'r Tîm Uwch-reolwyr yn ffurfiol bob mis a chynhaliwyd cyfarfodydd ychwanegol i drafod eitemau a oedd yn cynnwys cryn dipyn o risg weithredol neu strategol. Mae cyfrifoldebau'r Tîm Uwch-reolwyr wedi'u nodi yn y Cylch Gorchwyl, ond yn fras rydym yn:

- Cefnogi datblygu nodau strategol a chynllun gwaith blynyddol y sefydliad;
- Asesu perfformiad y sefydliad yn gyffredinol yn ôl yr amcanion sydd wedi'u nodi yn y cynllun gwaith blynyddol ac asesu'r perfformiad o ran cyflawni'r Cynllun Strategol;
- Dyrannu asedau fy sefydliad yn effeithlon ac effeithiol i gyflawni'r nodau a'r amcanion hynny;
- Asesu a rheoli risgiau a chyfleoedd; a
- Sicrhau bod gwerthoedd ac ymddygiad y sefydliad yn hybu diwylliant y sefydliad.

Fel Comisiynydd, rwy'n atebol am unrhyw benderfyniad a wneir.

Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Mae gennyf Bwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg annibynnol i'm cefnogi fel Swyddog Cyfrifyddu, i fonitro ac adolygu pa mor gynhwysfawr ac effeithiol yw fy fframwaith llywodraethu corfforaethol, gan gynnwys archwilio a rheolaeth ariannol, a threfniadau ar gyfer rheolaeth fewnol, gan gynnwys systemau canfod a rheoli risg.

Fframwaith llywodraethu

Mae fy Nhîm Uwch-reolwyr a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn rhoi sicrwydd i mi ynghylch fy fframwaith llywodraethiant, ac yn fy helpu i gyflawni fy swyddogaethau statudol mewn modd sy'n gyson â'r egwyddorion sy'n berthnasol i Gorfforaeth Undyn o fewn Cod Llywodraethau Corfforaethol y Deyrnas Unedig a'r Safon Llywodraethu Da ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus, hynny yw, yn gyson â'r safonau uchel a ddisgwylir gan gorff sy'n cael ei gyllido'n gyhoeddus.

Darperir sicrwydd ychwanegol gan archwilwyr mewnol (TIAA Ltd.) ac archwilwyr allanol (Archwilio Cymru).

Mae llywodraethu corfforaethol da yn hanfodol mewn unrhyw sefydliad sy'n cael ei reoli'n dda. Mae'r fframwaith llywodraethu rwy'n ei ddilyn yn seiliedig ar systemau, polisïau a phrosesau allweddol y mae'r sefydliad yn cael ei gyfarwyddo a'i reoli drwyddynt.

Mae'r systemau rheolaeth fewnol hyn yn gweithio mewn modd integredig, gan adlewyrchu pwysigrwydd dull gweithredu integredig o lywodraethu a rheoli. Dim ond sicrwydd rhesymol, yn hytrach na sicrwydd llwyr, o effeithiolrwydd y gall y rhain ei ddarparu. Mae'r rheolaethau hyn wedi eu cynllunio i sicrhau bod y risgiau sy'n wynebu'r Comisiynydd yn aros o fewn y lefelau goddefgarwch risg a nodwyd yn y Strategaeth Rheoli Risg.

Mae fy Mhwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Tîm Uwch-reolwyr yn cytuno i gadw at fy Nghod Ymddygiad a rhoi gwybod i mi mewn amser real am unrhyw newidiadau yn eu buddiannau busnes, a nodir yn ffurfiol yn ystod cyfarfod chwarterol y Pwyllgor. Mae hyn yn sicrhau bod gwrthdaro posibl rhwng buddiannau, gan gynnwys risgiau i'm hannibyniaeth, yn cael eu nodi'n barhaus a bod camau priodol yn cael eu cymryd i'w lliniaru. Caiff y gofrestr buddiannau ei chyhoeddi ar fy ngwefan.

Aelodaeth y Pwyllgor

Rwy'n penodi aelodau'r Pwyllgor am dymor cychwynnol o bedair blynedd, y gellir ei ymestyn am hyd at bedair blynedd.

Mae gofyn i mi adolygu a chylchdroi sgiliau, gwybodaeth a phrofiad cronnus aelodau fy Mhwyllgor yn rheolaidd, yn unol ag arferion da. Drwy adolygu cymysgedd sgiliau aelodau presennol y pwyllgor, nodais bod angen cryfhau'r pwyllgor drwy recriwtio aelod sydd â gwybodaeth helaeth am seiberddiogelwch a diogelwch data.

O ganlyniad, ymunodd Sian Richards â'r Pwyllgor ym mis Ionawr 2024. Bydd hi'n galluogi'r Pwyllgor i graffu'n effeithiol ar seibergadernid y sefydliad a datblygu a chyflawni Strategaeth Ddigidol, Data a Thechnoleg fy sefydliad yn ystod 2024/25 ac ar ôl hynny. Yn ystod y flwyddyn, dyma oedd yr aelodaeth a'r dyddiadau cychwyn:

- Claire Bevan, dechreuodd ei chyfnod ym mis Ebrill 2020 ac wedyn fe'i penodwyd yn Gadeirydd ym mis Ebrill 2022;
- Julia Evans, dechreuodd ei chyfnod ym mis Ionawr 2019;
- David Powell, dechreuodd ei dymor ym mis Ebrill 2020;
- Chris Knight, dechreuodd ei dymor ym mis Ebrill 2022; a
- Sian Richards, dechreuodd ei chyfnod ym mis Ionawr 2024.

Mae gan y Pwyllgor brofiad sylweddol o sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru. Mae aelodau'r pwyllgor i gyd yn annibynnol ac felly nid ydynt yn darparu gwaith i mi mewn unrhyw swyddogaeth weithredol.

Cyfarfodydd y pwyllgor

Yn ystod 2023-24, cynhaliais bum cyfarfod pwyllgor ffurfiol a dau gyfarfod anffurfiol. Yn ogystal, bob mis Ebrill, mae'r Pwyllgor yn cynnal sesiwn breifat gyda'r archwilwyr mewnol ac allanol, sy'n galluogi aelodau i gael sgwrs agored a chyfrinachol. Drwy gydol y flwyddyn, mae'r Cyfarwyddwr Archwilio Mewnol a'r Arweinydd Ymgysylltu ag Archwilio Cymru yn parhau i gael cyswllt â Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Yn ystod y cyfarfodydd ffurfiol, cyflwynir cyfres o adroddiadau i'r Pwyllgor i'w galluogi i graffu'n effeithiol ac yna fy sicrhau ar lywodraethiant y sefydliad. Mae eu gwaith yn ystod 2023-24 wedi'i nodi yn adran ffocws y Pwyllgor isod.

Mae'r cyfarfodydd anffurfiol yn gyfle i mi ddefnyddio mwy ar arbenigedd amrywiol y Pwyllgorau yn ystod trafodaethau manwl ar feysydd gweithredol a strategol penodol a oedd yn cynnwys lefel uchel o risg. Roedd y cyfarfodydd hefyd wedi rhoi'r cyd-destun a'r wybodaeth ychwanegol i'r Pwyllgor i fy helpu i gyflawni fy swyddogaethau statudol.

Mae'r Pwyllgor wedi mabwysiadu dull hybrid ar gyfer cyfarfodydd. Cynhaliwyd dau gyfarfod wyneb yn wyneb, gyda'r papurau'n parhau i gael eu dosbarthu'n electronig. Mae'r aelodau'n cael eu diweddaru mewn amser real, drwy e-bost, am unrhyw faterion sy'n codi. Mae aelodau'r pwyllgor yn cytuno eu bod yn cael gwybodaeth berthnasol, amserol a chywir.

Crynhoir presenoldeb yn y cyfarfodydd yn y tabl isod:

	Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd	
Aelod	Ffurfiol	Anffurfiol
Claire Bevan (Cadeirydd)	5 / 5	2 / 2
Julia Evans	5 / 5	2 / 2
David Powell	4 / 5	2 / 2
Chris Knight	5 / 5	2 / 2
Sian Richards* *Dechreuodd yn y swydd ym mis Ionawr 2024	1 / 1	amh
Tîm Uwch-reolwyr		
Heléna Herklots	5 / 5	2 / 2
Kelly Davies	5 / 5	2 / 2
Rachel Bowen	5 / 5	2 / 2
Katie Holliday	5 / 5	2 / 2

Fel aelod newydd o'r Pwyllgor, cwblhaodd Sian Richards gyfres o sesiynau cynefino gyda'r Comisiynydd, y Prif Swyddog Gweithredu, y Pennaeth Cyllid ac Adnoddau a Chadeirydd y Pwyllgor, i'w helpu i ddeall rôl y Pwyllgor a'r sefydliad.

Rhoddwyd cyfleoedd hyfforddi i'r Pwyllgor hefyd. Yn ystod 2023-24, aeth y Cadeirydd i ddwy weminar Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth, sy'n cael eu trefnu gan Swyddfa'r Cabinet, a mynychodd y Pwyllgor sesiwn a drefnwyd yn fewnol ar seibergadernid a ddarparwyd gan Archwilio Cymru gydag astudiaeth achos gan Gomisiynydd y Gymraeg yn dangos effaith ymosodiad seiber.

Yn ogystal, mynychodd y Cadeirydd a'r Pennaeth Cyllid ac Adnoddau sesiwn ddiweddaru a ddarparwyd gan Archwilio Cymru.

Ffocws y Pwyllgor

Mae'r Pwyllgor yn gweithredu o fewn cylch gorchwyl ffurfiol, sy'n seiliedig ar ganllawiau ar arferion gorau a gyhoeddir gan y Trysorlys.

Yn unol â'r Cylch Gorchwyl, cyflwynwyd adroddiadau chwarterol i'r Aelodau yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgor ar Risg Strategol, Iechyd Sefydliadol, Llywodraethu, Cyfathrebu, Cyllid a Seiberddiogelwch, a Cherdyn Sgorio Cytbwys. Mae hyn yn rhoi trosolwg o'r holl ddata llywodraethu allweddol.

Ym mhob cyfarfod, darparwyd trosolwg i'r Pwyllgor o'm treuliau a'r gofrestr rhoddion a lletygarwch, ac ni chodwyd dim pryderon yn ystod y flwyddyn.

Yn ystod y flwyddyn, rhoddodd y Pwyllgor sylwadau a chyngor ar y polisi Codi Pryderon ac ar ôl adolygu'r Polisi Atal Twyll, Gwrth-lwgrwobrwyo a Gwrth-wyngalchu Arian, gan argymell y dylid datblygu Cynllun Ymateb i Dwyll.

Mae'r Pwyllgor hefyd wedi asesu effeithiolrwydd Archwilio Mewnol ac Allanol, wedi cael sicrwydd gan yr Archwilwyr Mewnol ar systemau llywodraethu allweddol y Comisiynydd, wedi cael yr wybodaeth ddiweddaraf ar raglen waith y Comisiynydd, wedi adolygu Amcangyfrif Ariannol y Comisiynydd ar gyfer 2024/25, ac Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2022/23, yn ogystal ag adroddiad ISA260.

Yn ogystal â'r gwaith a nodwyd uchod, darparodd y Pwyllgor gyngor ar ddau faes risg strategol sefydliadol:

- Roeddent wedi craffu ar fy Amcangyfrifon (cyllideb) 2024/25, a oedd yn dangos y pwysau cost sylweddol a pharhaus yr oedd y sefydliad yn ei wynebu ac yn dangos yr angen am gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2024/25 ac ymlaen.
- O ganlyniad i doriadau Llywodraeth Cymru i fy nghyllid sylfaenol ar gyfer 2024/25 ymlaen, roedd y Pwyllgor wedi craffu ar fy nghynnig i agor cynllun Ymadael Gwirfoddol ar gyfer staff ym mis Ionawr 2024, ac wedi cytuno iddo.

Mae cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu cyhoeddi ar fy ngwefan i sicrhau bod fy nhrefniadau llywodraethu yn fwy tryloyw.

Ym mis Medi 2023, cynhaliwyd cyfarfod eithriadol i ystyried a chymeradwyo Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2022/23. Fel arfer, mae'r adroddiad hwn yn cael ei gymeradwyo yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Gorffennaf. Fodd bynnag, oherwydd yr oedi arfaethedig yn amserlenni archwilio Archwilio Cymru, roedd angen cynnull cyfarfod ychwanegol. Nid oedd yr

oedi cyn llofnodi'r cyfrifon wedi arwain at dorri fy nyletswyddau statudol. Bydd effaith debyg ar gylch archwilio 2023-24, er fy mod yn rhagweld dychwelyd i amserlen arferol yn y dyfodol.

Adolygiad y Pwyllgor o effeithiolrwydd y Fframwaith Llywodraethu

Cyflwynodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ei adroddiad blynyddol ym mis Ebrill 2024, a oedd yn crynhoi ei gasgliadau o'r gwaith a wnaeth yn ystod 2023-24. Yn yr adroddiad, rhoddodd y Pwyllgor sicrwydd i mi ar y meysydd canlynol yn fy fframwaith llywodraethiant. Cadarnhawyd y canlynol ganddynt:

- Ymddengys bod y trefniadau asesu risg a rheoli risg yn gadarn ac yn gweithredu'n effeithiol o fewn fframwaith polisi clir.
- Mae adroddiadau ariannol yn cyd-fynd â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth ac mae adroddiadau'n cael eu paratoi yn unol â pholisïau cyfrifyddu priodol.
- Mae ei adolygiadau strategol o'r gofrestr risg yn awgrymu bod y fframwaith rheolaeth fewnol yn gweithredu'n effeithiol.
- Mae'r trefniadau llywodraethu ehangach ar gyfer canfod a rhoi gwybod am dwyll a gwyngalchu arian yn gadarn ac yn unol ag arferion da.
- Mae'r trefniadau seiberddiogelwch yn gadarn a darparwyd sicrwydd pellach drwy gael ardystiad allanol gyda Cyber Essentials ac IASME Lefel 2.
- Mae'r archwilwyr mewnol ac allanol yn cyfrannu'n gadarnhaol at gyfarfodydd y Pwyllgor.

Ar gyfer 2023-24, mae'r Pwyllgor o'r farn, ar sail canfyddiadau'r archwilwyr a'i arsylwadau ei hun, y gall ddarparu lefel sylweddol o sicrwydd i mi fod y trefniadau sydd yn eu lle yn parhau i fod yn briodol ac yn parhau i weithredu'n effeithiol.

Arfarniad pa mor effeithiol yw'r Pwyllgor

Mae'r Pwyllgor yn arfarnu ei effeithiolrwydd a'i weithrediadau ei hun bob blwyddyn. Fe gynhaliodd y Cadeirydd arfarniad gyda'r aelodau eraill o'r Pwyllgor. Yn dilyn y cyfarfodydd hyn, bu'r Cadeirydd a minnau yn trafod ei pherfformiad hi a pherfformiad y Pwyllgor. Yn sgil y trafodaethau hyn, daeth y Pwyllgor i'r casgliad ei fod yn parhau i weithredu'n effeithiol, gan nodi bod y Cadeirydd a minnau yn gallu cadarnhau ymrwymiad yr aelodau ac yn gallu rhoi sicrwydd fod y Pwyllgor yn effeithiol, a'r amrywiaeth eang o sgiliau a phrofiad y mae'r aelodau yn eu cynnig i'r Pwyllgor.

Yn ogystal â'r arfarniadau rhwng y Cadeirydd ac aelodau'r Pwyllgor, mae fy archwilwyr mewnol (TIAA) yn cynnal adolygiad annibynnol bob dwy flynedd o effeithiolrwydd y Pwyllgor. Mae'r adolygiad hwn yn cynnwys trafodaethau ag aelodau'r Pwyllgor.

Cynhaliwyd yr adolygiad yn ystod mis Mawrth 2024 a dywedodd aelodau'r Pwyllgor:

- Roeddent yn croesawu'r tryloywder a'r parch rhwng y Comisiynydd, staff y Comisiynydd a'r Aelodau.
- Maent yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda ac yn derbyn papurau o ansawdd da ac ymatebion amserol i unrhyw gwestiynau a godir.
- Mae cymysgedd sgiliau'r aelodau presennol wedi cael ei wella gan yr aelod newydd, sy'n arbenigo mewn seiberddiogelwch a rheoli data. Roedd yr aelodau'n cytuno y dylai'r setiau sgiliau presennol ac anghenion y Comisiynydd yn cael eu hadolygu bob tro y bydd aelod newydd yn cael ei recriwtio er mwyn sicrhau bod y cydbwysedd iawn o gefnogaeth a chyngor yn cael ei gynnal.
- Bydd cyfnod pontio yn dilyn penodiad y Comisiynydd nesaf, a bydd angen sefydlu cysylltiadau newydd, yn ogystal â deall anghenion a disgwyliadau'r Comisiynydd o'r Pwyllgor.
- Dylai'r Comisiynydd barhau i adolygu a gwella amrywiaeth y Pwyllgor.

Yn fy marn i, mae'r Pwyllgor yn gweithredu'n effeithiol ac yn ychwanegu gwerth at y systemau rheoli mewnol a fy mlaenoriaethau strategol ehangach.

Archwilio mewnol

Rôl archwiliad mewnol yw rhoi sicrwydd annibynnol a gwrthrychol o ran rheoli risg, rheolaethau a llywodraethu. Mae'r sicrwydd mae'r archwiliad mewnol yn ei roi yn elfen allweddol o'r fframwaith llywodraethu ac yn un o'r ffynonellau sicrwydd allweddol sy'n ofynnol gennyf i a fy Mhwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

Mae'r Gofrestr Risg Strategol yn sail i ffocws gwaith yr archwiliad mewnol ac yn darparu'r dystiolaeth mae'r datganiad sicrwydd blynyddol ar reolaeth fewnol yn seiliedig arni.

Yn ystod 2023-24, defnyddiodd y TIAA 19 diwrnod, o gyllideb ar gyfer 20 diwrnod, ar raglen o archwiliadau mewnol, a daeth yr adroddiad blynyddol i'r casgliad bod y "TIAA yn fodlon bod gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru brosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu rhesymol ac effeithiol ar waith ar gyfer y meysydd a adolygwyd yn ystod y flwyddyn."

Ategwyd y farn archwilio hon gan yr adolygiadau sicrwydd a gynhaliwyd yn ystod 2023-24.

Maes a Archwiliwyd	Sicrwydd a Roddwyd	Pwyntiau Gweithredu		
		Brys	Pwysig	Arferol
Cynllun Parhad Busnes	Sylweddol	Dim pwyntiau Gweithredu wedi'u codi		
Systemau Ariannol: • Asedau Sefydlog • Cyflogres	Sylweddol	0	0	0
Teithio a Chynhaliaeth	Sylweddol	0	0	1
Iechyd a Diogelwch	Rhesymol	0	1	2

Lle mae argymhellion wedi cael eu darparu, mae rheolaethau mewnol wedi cael eu hadolygu a'u cryfhau.

Mae'r adolygiadau archwilio mewnol a'r adroddiad blynyddol yn dangos ymhellach pa mor gadarn yw fy Rheolaeth Strategol, Rheoli Risg a Systemau Ariannol.

Rheoli Risg

Mae'r fframwaith risg a rheoli mewnol yn cael ei ategu gan y Strategaeth Rheoli Risg ac yn elfen allweddol o'r fframwaith llywodraethu corfforaethol a rheolaeth fewnol.

Mae'r fframwaith risg hwn yn cydymffurfio â'r prif egwyddorion sydd wedi'u nodi yn nogfen Llywodraeth EF, Rheoli Egwyddorion a Chysyniadau Risg (Llyfr Oren), gan ystyried maint, strwythur ac anghenion y sefydliad. Ni chafwyd unrhyw adroddiadau bod y sefydliad wedi gwyro oddi wrth y Llyfr Oren.

Mae fy Strategaeth Rheoli Risg yn cydnabod nad yw'n bosibl dileu pob risg, ond, drwy'r Gofrestr Risgiau Strategol, caiff risgiau eu hadnabod a'u rheoli ac yna eu gostwng i lefel dderbyniol.

Mae'r Strategaeth hefyd yn nodi er fy mod yn atebol am bob risg, mae gan yr holl staff rôl i adnabod risgiau posibl newydd a defnyddio'r camau lliniaru priodol i leihau neu i ddileu risg. Caiff y Strategaeth ei hadolygu bob blwyddyn ac fe gafodd ei hadolygu ddiwethaf ym mis Ionawr 2024.

Rwy'n annog cymryd risgiau rheoledig, manteisio ar gyfleoedd newydd a defnyddio dulliau arloesol i hyrwyddo buddiannau'r sefydliad a chyflawni fy amcanion, ar yr amod eu bod er budd y sefydliad ym mhob achos h.y. wrth gyflawni fy strategaeth a'r cynlluniau gwaith sylfaenol. Mae risgiau cysylltiedig camau gweithredu a phenderfyniadau arfaethedig yn cael eu nodi, eu gwerthuso a'u rheoli i sicrhau bod amlygiad i risg yn dderbyniol.

Bydd unrhyw fygythiad neu gyfle sy'n cael effaith sylweddol ar unrhyw un o'r meysydd a restrir isod yn cael ei ystyried yn ofalus gan aelod o'r Tîm Uwch-reolwyr cyn ei gymryd. Pan fydd effaith sylweddol bosibl, bydd yn cael ei chyfeirio ataf fi fel risg strategol cyn i unrhyw benderfyniadau gael eu gwneud. Dyma'r meysydd hyn:

- Canlyniad andwyol i fuddiannau a lles pobl hŷn neu unigolyn hŷn unigol;
- Canlyniad niweidiol ar gyflawni amcanion y sefydliad fel y nodir yn fy nghynllun strategol;
- Tanseilio annibyniaeth y Comisiynydd;
- Camau gweithredu neu gamau gweithredu posibl sy'n arwain at ddirwy neu feirniadaeth gan gyrff rheoleiddio;
- Camau gweithredu neu gamau posib sy'n arwain at golled ariannol; neu
- Ganlyniad andwyol i enw da'r Comisiynydd..

Mae achos, effaith, rheolaethau a chamau gweithredu arfaethedig i fynd i'r afael â risgiau yn y gofrestr risgiau yn cael eu monitro a'u hadolygu'n ffurfiol bob mis gan y Tîm Uwch-reolwyr, i sicrhau bod y sefydliad yn parhau i addasu i'r amgylchedd sy'n newid a bod yr holl risgiau byw yn cael eu rheoli'n effeithiol.

Mae'r Gofrestr Risgiau Strategol hefyd yn cael ei hadolygu'n ffurfiol yng nghyfarfod chwarterol y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Cyflwynir Cofrestr Risg Strategol gyfredol i'r Pwyllgor, y matrics sgorio, a phapur eglurhaol sy'n rhoi manylion y newidiadau mewn sgorio risg a chamau lliniaru dros y chwarter diwethaf a'r rhesymau dros y newidiadau hyn.

Ar hyn o bryd mae 11 o risgiau sefydlog ar y Gofrestr Risg Strategol, sy'n adlewyrchu'r heriau presennol yng nghyd-destun amgylchedd sy'n newid yn gyflym.

Yn ystod 2023-24, roedd 19.6 o swyddi cyfwerth ag amser llawn yn strwythur fy sefydliad. Oherwydd trosiant staff a materion cyfatebol o ran recriwtio, yn ogystal â salwch staff tymor hwy, yn ymarferol roedd 17.7 o bobl cyfwerth ag amser llawn yn cyflawni fy rhaglen waith ac yn gweithio i sicrhau cydymffurfiaeth â fy fframwaith llywodraethiant. Oherwydd maint bach y sefydliad, disgwylir y byddai materion capasiti ac adnoddau'n cael eu rheoli drwy gydol y flwyddyn.

Yn ystod y flwyddyn, cafodd y materion hyn eu heffeithio gan amrywiaeth o ffactorau, fel recriwtio ac absenoldeb, y tarfu a achoswyd gan weithredu cynllun ymadael gwirfoddol, a'r gwaith paratoi sylweddol sy'n gysylltiedig â darparu tystiolaeth i Ymchwiliad Cyhoeddus COVID-19. O ganlyniad, roedd y risg strategol a sgoriodd uchaf yn gyson yn ystod 2023-24 yn gydnabyddiaeth o wytnwch fy sefydliad. Fodd bynnag, er gwaethaf yr heriau sylweddol hyn, roedd fy nhîm yn dal i allu cyflawni fy rhaglen waith yn gyson ac mae fy adroddiad blynyddol yn dangos yr effaith gadarnhaol y mae fy nhîm yn parhau i'w chael ar fywydau pobl hŷn yng Nghymru.

Yn ogystal â'r 11 risg sefydlog yn y Gofrestr Risg Strategol, mae adran benodol hefyd sy'n canolbwyntio ar ddigwyddiadau ar gyfer monitro neu faterion posibl yn y dyfodol sy'n cael eu rheoli'n weithredol ond nad ydynt wedi cael eu cydnabod eto fel risgiau strategol. Yn ystod 2023-24, cafodd dwy risg sy'n gysylltiedig ag amser eu hesgoli o'r adran hon o'r gofrestr i gael eu cydnabod fel risgiau strategol. Mae'r risg gyntaf yn ymwneud ag Ymchwiliad Cyhoeddus Covid-19 ac mae'r ail yn cydnabod y cyfnod pontio ar gyfer Comisiynydd newydd.

Mae'r fframwaith risg a rheolaeth fewnol yn rhan sylweddol o'm strwythur llywodraethiant corfforaethol. Er mai fi sy'n atebol am risg, mae'r holl staff yn cael eu hannog i nodi risgiau posibl a chymryd camau lliniaru priodol. Er gwaethaf heriau gweithredol, gan gynnwys cyfyngiadau staffio a gostyngiadau yn y gyllideb, mae fy nhîm a minnau wedi ymrwymo i gael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl hŷn yng Nghymru.

Mae rheoli risg yn rhagweithiol yn dal yn hanfodol i'n cydnerthedd a'n llwyddiant parhaus.

Codi Pryderon

Mae gen i Bolisi Codi Pryderon sefydledig yn nodi sut gall staff chwythu'r chwiban os ydynt yn amau bod drwgweithredu neu beryglon yn y gweithle. Mae adnabod drwgweithredu yn fewnol yn elfen hanfodol o reoli risg gorfforaethol ac mae'n cyfrannu at lywodraethu effeithiol.

Os bydd fy staff neu eraill yn mynegi pryderon ynghylch y sefydliad na ellir eu datrys yn rhwydd, rwyf wedi sefydlu trefniadau llywodraethu priodol sy'n cynnwys Polisi Codi Pryderon a Pholisi Cwynion. Caiff unrhyw faterion sy'n ymwneud â fy rôl eu cyfeirio at Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

Mae staff newydd yn cael gwybod am y polisi yn ystod eu cyfnod cynefino, ac yn ystod 2023-24 fe wnaeth y Prif Swyddog Gweithredu roi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff am y polisi cyfredol.

Yn ystod 2023-24, ni ddaethpwyd â dim pryderon i'm sylw i nac i sylw Cadeirydd y Pwyllgor o dan fy mholisi Codi Pryderon mewnol (2022-23: 0)

Yn ystod 2023-24, ni wnaed dim cwynion allanol ffurfiol o dan y Polisi Cwynion (2022/23: 0).

Adolygu Effeithiolrwydd

Drwy gydol 2023-24, es ati i adolygu, mireinio a monitro fy risgiau strategol a gweithredol yn unol â'm strategaeth rheoli risg. Yn ystod 2024-25, byddaf yn parhau i fonitro, cynnal a, phan fo'n briodol, gwella'r fframwaith llywodraethiant i sicrhau ei fod yn parhau i ddiwallu fy anghenion sicrwydd.

Fel Swyddog Cyfrifyddu, mae gennyf ddyletswydd gyfreithiol i reoli adnoddau cyhoeddus yn effeithiol ac, o ganlyniad, rwyf yn adolygu effeithiolrwydd fy fframwaith llywodraethu yn barhaus. Mae gwaith archwilio mewnol, fy Nhîm Uwch-reolwyr a sicrwydd a roddwyd gan fy Mhwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, yn ogystal â sylwadau archwilwyr allanol (Archwilio Cymru) yn sail i'r adolygiad hwn, ac maent wedi'u cynnwys yn y llythyr rheoli ac mewn adroddiadau eraill.

Barn y Comisiynydd ar y Datganiad Llywodraethu

Rwyf wedi ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd yn y datganiad llywodraethiant hwn ac rwyf o'r farn:

- mae'r strwythurau a'r gweithdrefnau llywodraethiant a rheolaeth fewnol cyffredinol wedi bod yn briodol i gefnogi fy swyddogaethau a'm blaenor-iaethau;
- eu bod wedi bod ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol hon; ac
- maent wedi parhau i weithio'n effeithiol hyd at ddyddiad cyhoeddi'r ddogfen hon.

Mae'r fframwaith llywodraethu uchod wedi bod ar waith am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024, a pharatowyd y datganiad yn unol â chanllawiau'r Trysorlys..

Adroddiad ar staff a thaliadau

Polisi Taliadau

Gweinidogion Cymru sy'n pennu fy nghyflog i, yn unol ag Atodlen 1(3) o Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Mae fy nghontract yn wahanol i ddeiliaid swyddi cyhoeddus eraill gan nad yw'n caniatáu ar gyfer codiadau costau byw yn ôl chwyddiant, dyfarniadau cynyddrannol, na bonysau. O ganlyniad, nid yw fy nghyflog wedi cynyddu ers i mi gael fy mhenodi yn 2018. Rwy'n gymwys i ymuno â Phrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, ac wedi gwneud hynny.

Yn ystod 2023-24, gweithiais gyda sefydliad allanol i gynnal ymarfer gwerthuso swyddi o'r rolau yn fy sefydliad i sicrhau eu bod ar y graddau priodol a'u bod yn cyd-fynd â system sgorio JEGS y gwasanaeth sifil. Yn dilyn yr adolygiad hwn, roeddwn yn falch o nodi nad oedd unrhyw newidiadau arfaethedig i'r graddfeydd yn fy strwythur presennol. Bydd unrhyw swyddi newydd sy'n cael eu nodi a'u hymgorffori yn strwythur fy sefydliad yn cael eu gwerthuso gan ddefnyddio'r un system sgorio JEGS, er mwyn sicrhau bod eu graddau'n briodol a'u bod yn gymharol â rolau eraill yn fy sefydliad.

Drwy fy strategaeth tâl a gwobrwyo, rwy'n pennu cyflogau staff sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol. Dyfarnir codiad cynyddrannol i gyflogau staff yn unol â thelerau ac amodau contractau. Wrth benderfynu a ddylid rhoi dyfarniad cyflog i staff, byddaf yn ystyried fforddiadwyedd o fewn fy nghyllideb bresennol a fy nghyllideb hysbys, chwyddiant a'r dyfarniadau cyflog a gynigir gan Lywodraeth Cymru a Chyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Ar ôl ystyried y ffactorau hyn yn 2023-24, dyfarnwyd cynnydd costau byw chwyddiannol o 5% i gyflogau pob un o'r staff (dyfarnwyd 4% yn 2022-23).

Er mwyn gweithio tuag at gydraddoldeb cyflogau ar draws y sector cyhoeddus, rwyf wedi ymrwymo i sicrhau bod cyflogau blynyddol fy nhîm, hyd at ac yn cynnwys Band E, yn cyd-fynd â'r pwynt cyflog minima ar bob un o raddfeydd cyflog Llywodraeth Cymru.

Contractau Gwasanaeth

Penodir aelodau parhaol o staff yn ôl eu haeddiant ac ar sail cystadleuaeth deg ac agored, yn unol â thelerau ac amodau a bennir gennyf i. Nid yw'r staff yn aelodau o'r Gwasanaeth Sifil ond mae ganddynt hawl i fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS).

Ar ôl cael fy mhenodi yn 2018, roedd swydd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn parhau am gyfnod o bedair blynedd gyda'r opsiwn i ymestyn am ddwy flynedd arall neu ar ôl y cyfnod cychwynnol o bedair blynedd, roedd modd ailymgeisio am y swydd drwy broses recriwtio agored a thryloyw am gyfnod arall o bedair blynedd.

Yn 2022, dywedais wrth Lywodraeth Cymru y byddwn yn ystyried ymestyn fy nghyfnod yn y swydd am ddwy flynedd arall ac ar ôl ymgynghoriad cadarnhaol â phobl hŷn, cytunodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol i ymestyn fy mhenodiad tan fis Awst 2024.

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi diwygio'r ddeddfwriaeth i ymestyn cyfnod Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn y swydd i gyfnod penodol o saith mlynedd, heb opsiwn i ymestyn, yn unol â'r Comisiynwyr eraill.

Oni nodir yn wahanol, mae penodiadau'r staff sy'n cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwn yn benagored. Nid oes oedran ymddeol gorfodol, er y bydd rheolau'r PCSPS ar oed pensiwn cynharaf yn berthnasol.

Rwyf wedi sefydlu ffyrdd o werthuso perfformiad i sicrhau y caiff cyfraniad gweithwyr unigol ei fonitro ar bob cam o'u cyflogaeth gyda'r sefydliad. Rwyf wedi rhoi rhaglen datblygu sefydliadol ar waith i wella gallu a gwella lefelau perfformiad cyffredinol.

Byddai terfynu swydd yn gynnar, ac eithrio oherwydd camymddwyn neu ymddiswyddiad, yn golygu y byddai'r unigolyn yn derbyn iawndal fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

Ym mis Rhagfyr 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai toriad o 5% yng nghyllideb fy sefydliad, a oedd yn rhoi pwysau ariannol sylweddol ar fy nghyllideb ar gyfer 2024/25 a'r tu hwnt. Er mwyn rheoli effaith y toriad hwn yn y gyllideb, roedd angen agor cynllun ymadael gwirfoddol. O ganlyniad, gadawodd dau aelod o staff y sefydliad dan Gynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil. Ceir rhagor o fanylion isod.

Rhoi gwybod am becynnau ymadael cynllun iawndal y gwasanaeth sifil.

Mae'r tabl isod yn dangos cyfanswm cost pecynnau ymadael y cytunwyd arnynt ac y rhoddwyd cyfrif amdanynt yn 2023-24.

Band cost y pecyn ymadael	2023-24	2022/23
Dan £10,000	0	0
£10,001- £25,000	1	0
£25,001 - £50,000	1	0
Cyfanswm	2	0
Cost adnoddau	**£60,000**	**£0**

Ni chafodd unrhyw swyddi eu dileu'n orfodol yn 2023-24, nac yn 2022-23.

Talwyd costau ymadawiadau gwirfoddol yn unol â darpariaethau Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil, sy'n gynllun statudol a luniwyd o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972. Rhaid nodi y cyfrifir y costau ymadael yn llawn yn y flwyddyn ymadael berthnasol.

Taliadau (gan gynnwys cyflog) a Hawliau (yn amodol ar archwiliad)

Mae'r adrannau canlynol yn rhoi manylion taliadau a buddiannau pensiwn fy staff uwch a minnau.

Cyfanswm Unigol y Taliad (yn amodol ar archwiliad)

Mae'r 'cyflog' yn cynnwys cyflog gros, taliadau goramser, ac unrhyw lwfans arall i'r graddau bod trethiant y Deyrnas Unedig yn berthnasol iddynt. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar daliadau a gronnwyd ac a wnaed gan y Comisiynydd ac sydd wedi'u cofnodi felly yn y cyfrifon hyn. Ni dderbyniais i nac unrhyw aelod arall o staff fuddion ymarferol nac unrhyw fonws.

Enw a theitl	Cyflog		Pensiwn Buddion[1]		Cyfanswm	
	2023-24 £000	2022-23 £000	2023-24 £000	2022-23 £000	2023-24 £000	2022-23 £000
Heléna Herklots Comisiynydd	90-95	90-95	35	35	125-130	125-130
Kelly Davies Prif Swyddog Gweithredol, Dirprwy Gomisiynydd	70-75	65-70	28	27	100-105	95-100
Rachel Bowen Cyfarwyddwr Polisi	65-70	30-35 [2]	25	13	90-95	40-45
Katie Holliday Pennaeth Cyllid ac Adnoddau	60-65	55-60	32	25	90-95	80-85

(1) Mae gwerth y buddion pensiwn sydd wedi'u cronni yn ystod y flwyddyn yn cael ei gyfrifo fel (y cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn wedi'i luosi ag 20) ychwanegu (cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad) llai (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd yn sgil chwyddiant nac unrhyw gynnydd neu ostyngiad yn sgil trosglwyddo hawliau pensiwn.

(2) (2) Dechreuodd cyfnod Rachel Bowen yn y swydd ar 19 Medi 2022; y bandio ar gyfer cyflog a oedd yn cyfateb i flwyddyn lawn ar gyfer 2022-23 oedd £55-60,000.

Buddion Pensiwn (yn amodol ar archwiliad)

	Pensiwn cronedig ar oedran pensiwn ar 31/3/24 £000	Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn ar oedran pensiwn £000	CETV ar 31/03/24 £000	CETV ar 31/03/23[2] £000	Y cynnydd gwirioneddol yn y CETV £000
Heléna Herklots Comisiynydd	10-15	0-2.5	210	159	27
Kelly Davies Prif Swyddog Gweithredol, Dirprwy Gomisiynydd	15-20	0-2.5	281	232	16
Rachel Bowen Cyfarwyddwr Polisi	0-5	0-2.5	30	10	15
Katie Holliday Pennaeth Cyllid ac Adnoddau	15-20	0-2.5	312	266	20

(1) Dechreuodd Rachel Bowen yn ei swydd ar 19 Medi 2022 ac nid oedd CETV.

(2) Ar gyfer aelodau sydd o fewn cwmpas Rhwymedi 2015, bydd cyfrifo eu buddion (a CETV cysylltiedig) ar 31 Mawrth 2023 a 31 Mawrth 2024 yn adlewyrchu'r ffaith bod y gwasanaeth rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022

wedi cael ei newid i'r PCSPS ar 1 Hydref 2023. Bydd y ffigurau CETV yn seiliedig ar y safle newydd h.y. buddion PCSPS ar gyfer y cyfnod hwnnw. Mae'r un peth yn wir wrth gyfrifo'r un cyfanswm cyflog.

Yn ogystal, bu newid ffactor yn ystod y cyfnod adrodd. Er cysondeb, cyfrifwyd y CETV ar 31 Mawrth 2023 a 31 Mawrth 2024 ar gyfer yr holl aelodau sy'n cael sylw mewn adroddiadau gan ddefnyddio'r ffactorau newydd.

Mae manylion pellach ar drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar gael ar y wefan.

Dolen i'r wefan: Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod

Y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalafog buddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol, wedi ei asesu gan actwari. Y buddion y pennir eu gwerth yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol sydd i'w dalu i gymar o'r cynllun. Taliad yw'r CETV a wneir gan gynllun pensiwn neu drefniant i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi eu cronni o ganlyniad i'w aelodaeth gyflawn o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae datgeliad yn berthnasol iddi.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi ei drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnwyd i'r aelod o ganlyniad i brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun.

Cyfrifir CETV yn unol â Rheoliadau'r Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) 2008 ac nid yw'n ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl i fuddion o ganlyniad i Dreth Lwfans Oes a allai fod yn daladwy pan gymerir buddion pensiwn.

Y cynnydd gwirioneddol yn y CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yn y CETV sy'n cael ei ariannu gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn a gronnwyd oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Cynllun Pensiwn

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a'r Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (CSOPS) - a elwir yn "alpha" - yn gynlluniau buddion diffiniedig heb eu cyllido ar gyfer sawl cyflogwr, ond nid yw Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn gallu canfod beth yw ei gyfran o'r asedau a'r dyledion.

Fe wnaeth actiwari'r cynllun brisio'r cynllun fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2016. Mae manylion i'w gweld yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Blwydd-daliadau Sifil yma.

Ar gyfer 2023-24, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £242,700 yn daladwy i'r PCSPS (2022-23: £216,800) ar un o bedair cyfradd yn yr amrediad 26.6% i 30.3% o enillion pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog.

Bydd Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwyr, bob pedair blynedd fel arfer yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. Pennir cyfraddau'r cyfraniadau er mwyn talu cost y buddion sy'n cronni yn ystod 2023-24 sydd i'w talu i'r aelod pan mae'n ymddeol, ac nid y buddion a gaiff eu talu yn ystod y cyfnod hwn i bensiynwyr presennol.

Gall gweithiwr ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, sef pensiwn cyfranddeiliad gyda chyfraniad gan y cyflogwr. Cyfraniadau cyflogwyr o £nil (2022-23: £3,000) i un neu fwy o'r panel o dri darparwr pensiwn cyfranddeiliaid penodedig. Mae cyfraniadau'r cyflogwr yn seiliedig ar oedran, ac maent yn amrywio o 8% i 14.75%.

Mae cyflogwyr hefyd yn rhoi cyfraniad sy'n cyfateb i gyfraniadau'r gweithwyr hyd at 3% o enillion pensiynadwy. Yn ogystal, mae cyfraniadau'r cyflogwr o £dim (2022-23: £100), sef 0.5% o gyflog pensiynadwy, yn daladwy i'r PCSPS ar gyfer talu cost buddion cyfandaliad yn y dyfodol yn sgil marwolaeth mewn gwaith neu ymddeoliad oherwydd salwch yng nghyswllt y gweithwyr hyn.

Roedd cyfraniadau a oedd yn daladwy i ddarparwyr y pensiwn partneriaeth ar ddyddiad y fantolen yn £dim (£dim: 2022-23). Roedd y cyfraniadau a dalwyd ymlaen llaw ar y dyddiad hwnnw yn £dim.

Mae'r holl gyfraniadau hyn wedi'u cynnwys o dan y pennawd Costau Pensiwn Eraill yn y tabl ar dudalen 78.

Adroddiad Staff (yn amodol ar archwiliad)

Ar 31 Mawrth 2024, roedd y staff cyfwerth ag amser llawn yn 17.69 (31 Mawrth 2023: 16.73)

Mae costau staff yn cynnwys:

	2023-24			2022-23
	£000	£000	£000	£000
	Staff Parhaol	Staff Wrth Gefn	Cyfanswm costau staff	Cyfanswm costau staff
Cyflogau	990	0	990	808
Costau Nawdd Cymdeithasol	103	0	103	91
Costau Pensiwn Eraill	243	0	243	220
Cyfanswm costau net	**1,336**	**0**	**1,336**	**1,119**

Taliadau Aelodau o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Fel rhan o'u telerau ac amodau, mae aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cael eu talu am wyth diwrnod y flwyddyn, ar gyfradd ddyddiol o £350 a £400 i'r Cadeirydd. Mae aelodau hefyd yn cael eu talu am sesiynau hyfforddi a fynychwyd yn ystod y flwyddyn ac am unrhyw waith ychwanegol a wnaed i'r Comisiynydd. I nodi, ni wnaeth aelodau'r Pwyllgor unrhyw waith ychwanegol yn ystod 2023-24.

Wedi'u cynnwys o fewn costau staff mae £12,300 (2022-23: £12,000) sy'n ymwneud â'r taliad, heb fod yn bensiynadwy, i bum aelod o Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Comisiynydd. Yn ystod 2022-23, cyflogodd y Comisiynydd bedwar aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Yn unol â Pholisi Teithio a Chynhaliaeth y Comisiynydd, mae Aelodau'n cael ad-daliad drwy'r gyflogres am eu costau teithio a chynhaliaeth.

Nifer y Staff (yn amodol ar archwiliad)

Dyma nifer cyfartalog yr unigolion cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd gennyf yn ystod y flwyddyn (gan gynnwys uwch aelodau staff):

	2023-24	2022-23
Staff Parhaol	18.52	17.63
Penodiadau Cyfnod Penodol	0.00	0.08
Cyfanswm	**18.52**	**17.71**

Ar ddiwedd y cyfnod ariannol, dyma nifer yr unigolion cyfwerth ag amser llawn oedd yn gyflogedig gennyf (gan gynnwys uwch aelodau staff):

	31 Mawrth 2024	31 Mawrth 2023
Staff Parhaol	17.69	16.73
Penodiadau Cyfnod Penodol	0.00	0.00
Cyfanswm	**17.69**	**16.73**

Yn y tablau uchod, mae'r staff cyflogedig yn cael eu nodi mewn niferoedd sydd gyfwerth ag amser llawn.

Datgeliad Cyflog Teg (yn amodol ar archwiliad)

Mae'n ofynnol i gyrff adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y Cyfarwyddwr sy'n derbyn y cyflog mwyaf yn eu sefydliad a thâl canolrifol gweithlu'r sefydliad. Mae'r cyfanswm yn cynnwys cyflog yn unig, ac nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian pensiynau.

	2023-24	2022-23
Band cyflog y cyfarwyddwr sy'n derbyn y cyflog uchaf (y Comisiynydd)	£90,000 - £95,000	£90,000 - £95,000
Newid canrannol yn y cyflog cyfartalog o'r flwyddyn flaenorol	-3.78%	39.5%
Taliad chwartel isaf	£36,261	£31,871
Cymhareb cyflogau 25ain canradd	2.54	2.89
Taliad cyfan canolrifol	£43,789	£37,440
Cymhareb cyflogau canolrifol	2.11	2.46
Taliad chwartel uchaf	£50,232	£47,840
Cymhareb cyflogau 75ain canradd	1.84	1.93

Mae trosiant cymharol uchel o staff wedi effeithio ar y newid canrannol mewn cyflog cyfartalog rhwng 2022-23 a 2021-22; cyflwyno Cyfarwyddwr Polisi i'r strwythur sefydliadol; dyfarniad costau byw o 4% ac effaith ymarfer cydraddoldeb cyflog Llywodraeth Cymru.

Roedd tâl wedi'i fandio'r Cyfarwyddwr sy'n derbyn y cyflog mwyaf (y Comisiynydd) yn £90,000-£95,000 yn 2023-24 (2022-23: £90,000 – £95,000). Nid yw'r Comisiynydd wedi derbyn cynnydd costau byw ers iddi ddechrau yn y swydd yn 2016, ac mae ei chyflog felly'n parhau i fod yn £90,000.

Mae cyflog y Comisiynydd yn 2.11 gwaith (2022-23: 2.46) tâl canolrifol y gweithlu, a oedd yn £43,789 (2022-23: £37,440). Mae'r gymhareb yn parhau i ostwng oherwydd bod y taliadau cyffredinol i staff yn cynyddu ar raddfa gyflymach na thâl sefydlog y Comisiynydd.

Yn 2023-24, ni chafodd yr un gweithiwr cyflogedig (2022-23: dim) daliadau a oedd yn fwy na rôl y Comisiynydd. Roedd taliadau yn amrywio o £30,000 - £35,000 i £90,000 - £95,000 (2022-23: £25,000 - £30,000 i £90,000 - £95,000).

Y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau (ddim yn amodol ar archwiliad)

Mae'r tabl isod yn dangos enillion canolrifol a chymedrig fy staff fesul awr.

	31 Mawrth 2024		31 Mawrth 2023	
	Menywod	**Dynion**	**Menywod**	**Dynion**
Cyfanswm canolrifol	£21.60	£24.43	£19.46	£19.78
Cyfanswm cymedrig	£24.70	£22.29	£22.51	£19.60

Dyma gyfansoddiad staff fy swyddfa yn ôl rhyw a band ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon:

	31 Mawrth 2024						
	Band A	**Band B**	**Band C**	**Band D**	**Band E***	**Band F***	**Comm***
Benywaidd	0	3	4	4	1	2	1
Gwrywaidd	0	1	0	3	0	0	0

*Mae fy Uwch Dîm Rheoli Busnes i gyd yn fenywod

Ar 31 Mawrth 2024, roedd y cyflog canolrifol ar gyfer dynion yn uwch nac ar gyfer menywod. Fodd bynnag, mae cyflog cymedrig menywod yn uwch gan fod fy Uwch Dîm Rheoli i gyd yn fenywod. Mae hyn yn golygu bod y bwlch cyflog o -7.74% rhwng y rhywiau ar gyfer 2023-24, a bod menywod yn ennill £107.74 am bob £100 y mae dynion yn ei ennill.

Ystadegau oedran y gweithlu (ddim yn amodol ar archwiliad)

Niferoedd staff yn ôl oedran ar 31 Mawrth 2024

16-24	25-34	35-44	45-54	55-64	65 a hŷn	Heb ddatgelu
0	2	8	6	3	0	0

Trosiant staff (ddim yn amodol ar archwiliad)

	2019-20	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24
Nifer y staff	5	3	1	4	4*
Trosiant	24%	16%	5%	23%	19%

*Mae hyn yn cynnwys y ddau aelod o staff a gymerodd ran yn y cynllun Ymadael Gwirfoddol

Mae maint fy sefydliad, ac felly maint y sampl sydd ar gael, yn sgiwio gwerthoedd y trosiant yn y tabl uchod, gan fod un person yn gadael y sefydliad yn golygu trosiant o 5%.

Absenoldeb Oherwydd Salwch

Mae'r gyfradd gyfartalog ar gyfer absenoldeb oherwydd salwch fesul aelod o staff wedi cynyddu o gymharu â 2022-23, i 12.62 diwrnod (6.38 diwrnod yn 2022-23). Sbardunwyd y gyfradd salwch hon gan absenoldebau tymor hwy nad ydynt yn gysylltiedig â gwaith, sy'n cael eu hystyried yn rhai sy'n para mwy na deg diwrnod gwaith am yr un rheswm. O dynnu'r absenoldebau hyn o'r cyfraddau absenoldeb salwch cyfartalog, y gyfradd ar gyfer 2023-24 oedd 3.92 diwrnod.

Rwyf wedi ymrwymo i iechyd a lles fy staff ac mae gennyf bolisi absenoldeb salwch cynhwysfawr.

Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth

Byddaf yn edrych yn ofalus ar fy arferion recriwtio ar ôl pob penodiad er mwyn deall rhwystrau posibl yn well a sicrhau bod arferion recriwtio yn gynhwysol ac yn hygyrch i ystod eang o ymgeiswyr sydd â sbectrwm ehangach o nodweddion gwarchodedig.

Mae gennyf Gynllun Gwarantu Cyfweliad sy'n rhoi'r hawl i unigolion ag anableddau ac o gymunedau Du, Asiaidd, ac Ethnig Lleiafrifol, symud ymlaen i gam nesaf y broses ddethol os ydynt yn bodloni'r meini prawf sylfaenol adeg llunio'r rhestr fer.

Hysbysebir swyddi gwag drwy amrywiaeth o rwydweithiau er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn cyrraedd cynifer o bobl â phosibl, ac mae modd cael gwybodaeth mewn amrywiaeth eang o fformatau ar gais. Mae gwybodaeth am nodweddion gwarchodedig pob ymgeisydd yn cael ei chasglu a'i monitro i sicrhau cyfle cyfartal. Hefyd, rwy'n parhau i gasglu, monitro a chyhoeddi data cydraddoldeb ar broffil fy ngweithlu. Rwy'n parhau i fonitro'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn fy ngweithlu, sydd o blaid menywod ar hyn o bryd.

Rwy'n cynnal adolygiad parhaus o'r mathau o gontractau a phatrymau gweithio yn fy ngweithlu er mwyn deall a delio â rhwystrau posibl, gyda'r nod o gadw ymgeiswyr gyda sbectrwm ehangach o nodweddion gwarchodedig.

Rwyf wedi i ymrwymo i sicrhau bod arferion da yn cael eu hadolygu a'u rhoi ar waith er mwyn hyrwyddo amgylchedd gwaith cynhwysol sy'n hyrwyddo dysgu, datblygu a lles cyffredinol, i greu amgylchedd gwaith cadarnhaol ar gyfer yr holl staff. Mae diwylliant fy sefydliad yn un sy'n hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol ymysg yr holl staff ac nid oes lle i unrhyw ymddygiad amhriodol (e.e. bwlio ac aflonyddu).

Polisïau staff yng nghyswllt gweithwyr anabl

Ar gais, byddwn yn darparu gwybodaeth recriwtio mewn fformat gwahanol, fel print bras neu Braille. Mae ceisiadau am swyddi hefyd yn cael eu derbyn mewn fformatau gwahanol. Byddwn yn sicrhau bod addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud yng nghyswllt y trefniadau ar gyfer y cyfweliad, a bydd cyfweliadau'n cael eu cynnal yn newis yr unigolyn o iaith.

Byddai addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud, lle byddai modd, i atal pobl anabl rhag bod dan anfantais. Mae hyn yn berthnasol i gyfweliadau a threfniadau ar gyfer aelodau newydd o staff sy'n ymuno â'r sefydliad, a hefyd ar gyfer aelodau presennol o staff sy'n dychwelyd i weithio ar ôl anaf neu salwch.

Gweithio i'r Comisiynydd

Rwyf hefyd yn helpu gweithwyr i gynnal cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd drwy bolisi gweithio'n hybrid, gweithredu system amser hyblyg ac rwy'n rhoi cyfleoedd i weithwyr gael patrymau gwaith hyblyg.

Dros y tair blynedd diwethaf rwyf wedi buddsoddi'n sylweddol mewn hyfforddiant a arweinir yn allanol ar draws y sefydliad, sydd wedi cynnwys gweithdai a sesiynau hyfforddi a oedd yn canolbwyntio ar Gydraddoldeb Hil, Rhagfarn Ddiarwybod, a Braint Pobl Wyn. Bwriad y gweithdai hyn oedd datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y sefydliad o gydraddoldeb hiliol ymhellach. I gydnabod effaith y pandemig, fe wnes i hefyd drefnu cyfres o weithdai iechyd meddwl a lles i gefnogi fy nhîm.

Mae'r holl staff yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda'u rheolwyr llinell lle mae anghenion hyfforddi unigol yn cael eu nodi.

Hyrwyddir cyfleoedd dysgu a datblygu i'r holl staff, ac mae buddion fel Cynlluniau Talebau Gofal Plant, Cynlluniau Beicio i'r Gwaith a chynllun disgownt manwerthu ar gael iddynt hefyd. Ar ben hynny, rwy'n darparu llinell gyfrinachol Cymorth i Weithwyr sy'n rhad ac am ddim i staff er mwyn iddynt allu derbyn cyngor cyfrinachol ar amrywiaeth o faterion. Os oes angen, gall staff gael mynediad hefyd at swyddog cymorth cyntaf iechyd meddwl.

Bob blwyddyn, mae staff yn cynnal asesiad Cyfarpar Sgrin Arddangos o'u gweithfan gartref ac yn y swyddfa. Maent yn ymwybodol y byddwn yn trefnu, ar gais, i asesydd ymweld â'u cartrefi a darparu cefnogaeth un-i-un i sicrhau bod yr offer angenrheidiol ganddynt, a'i fod wedi'i osod yn iawn i'w galluogi i weithio'n effeithiol ac yn ddiogel gartref.

Mae'r sefydliad yn parhau i fod yn Gyflogwr Cyflog Byw achrededig. Mae'r achrediad hwn yn golygu bod pob aelod o staff yn y sefydliad yn ennill y Cyflog Byw o leiaf, sy'n seiliedig ar gostau byw yn y DU.

Ni fu erioed achos lle bu'n rhaid i mi drafod gydag undeb llafur ar ran staff.

Ymgysylltu â Gweithwyr

Er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn ymgysylltu'n llawn ac yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt, rwy'n cynnal cyfarfodydd tîm wythnosol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am faterion fel cynllunio gwaith, materion gweithredol ac ateb unrhyw gwestiynau sydd ganddynt. Mae fy nhîm a minnau hefyd yn cwrdd wyneb yn wyneb bob chwarter blwyddyn, sy'n rhoi cyfle i ni bwyso a mesur y gwaith rydym ni, fel sefydliad, wedi'i gyflawni ac iddynt gael diweddariadau manwl ar faterion gweithredol neu strategol. Mae staff wedi dweud bod y cyfarfodydd hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar gyfathrebu o fewn y sefydliad.

Yn ogystal â'r ddau drefniant ffurfiol hyn, rhoddir anogaeth i fy nhîm ddefnyddio'r swyddfa i gyfarfod a chydweithio ar waith.

Rwy'n grymuso staff i ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywyd a'u hamgylchedd gwaith, ac i gyfrannu atynt. Enghraifft o hyn yw bod yr holl bolisïau newydd yn cael eu cyflwyno i staff am adborth ar ôl iddynt gael eu datblygu a bod unrhyw bolisïau sydd â newidiadau sylweddol hefyd yn cael eu dosbarthu er gwybodaeth a sylwadau.

Yn ystod 2022-23, ymgynghorwyd â staff ar nifer o bolisïau newydd, gan gynnwys Polisi Menopos a Pholisi Absenoldeb Gofalwyr.

Ni wnes i gyflwyno unrhyw bolisïau newydd yn 2023-24. Fodd bynnag, yn ddiweddar, rwyf wedi dechrau ymgynghori â staff ar bolisi cydraddoldeb traws, a fydd yn cael ei gyflwyno yn nes ymlaen yn 2024-25.

Rwy'n parhau i ddilyn arferion gorau ac mae fy staff yn rhoi adborth cadarnhaol eu bod yn teimlo'u bod yn cael eu cefnogi i gyflawni eu swyddi'n effeithiol a bod telerau ac amodau eu cyflogaeth yn cyfrannu'n gadarnhaol at eu llesiant.

Cymryd gweithwyr ymlaen heb fod ar y Gyflogres

Nid oedd unrhyw weithwyr wedi'u cymryd ymlaen heb fod ar y gyflogres yn ystod 2023-24; (£dim: 2022-23)

Gwariant ar Wasanaethau Ymgynghori

Nid oedd unrhyw wariant ar wasanaethau ymgynghori yn ystod 2023-24; (dim: 2022-23)

Iawndal am Golli Swydd (yn amodol ar archwiliad)

Ni wnaed dim taliadau iawndal yn 2023-24; (£dim: 2022-23)

Heléna Herklots CBE
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
20 Awst 2018 – 19 Awst 2024

K. Davies

Kelly Davies[1]
Dirprwy Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru
19 Medi 2024

1 Gan fod cyfnod Heléna Herklots yn y swydd Comisiynydd wedi dod i ben ar 19 Awst 2024, Kelly Davies fydd yn llofnodi'r Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol yn ei rôl fel y Dirprwy Gomisiynydd a Swyddog Cyfrifyddu, yn unol â Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006.

Tystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

Barn ar y datganiadau ariannol

Rwy'n tystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, y Datganiad o Lifau Arian Parod a'r Datganiad o Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EF.

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa materion Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ar 31 Mawrth 2024 ac o'i gwariant net, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EF.
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006.

Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Sail y barnau

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (Y DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran o'm tystysgrif sy'n nodi cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol ar y corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barnau.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol i baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi adnabod unrhyw ansicrwydd perthnasol mewn perthynas â digwyddiadau neu amodau a all, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Caiff fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru mewn perthynas â busnes gweithredol eu disgrifio yn yr adrannau perthnasol o'r dystysgrif hon.

Caiff y sail gyfrifyddu busnes gweithredol ar gyfer Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ei mabwysiadu gan ystyried y gofynion yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle disgwylir y bydd y gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn parhau i'r dyfodol.

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a rhannau eraill o'r adroddiad a archwilir a'm hadroddiad i fel archwilydd ar y rhain. Y Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu wybodaeth a gafwyd wrth gyflawni'r archwiliad, neu'n ymddangos fel arall fel pe bai wedi cael ei chamddatgan yn berthnasol. Os wyf yn canfod anghysonderau perthnasol o'r fath neu wybodaeth berthnasol o'r fath sy'n ymddangos fel pe bai wedi cael ei chamddatgan, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn achosi camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud, os wyf yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi'i chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i mi nodi'r ffaith honno.

Nid oes unrhyw beth gennyf i'w nodi yn hyn o beth.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff sydd i'w harchwilio wedi cael ei pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd a gaiff eu harchwilio wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006; ac

- mae'r wybodaeth a roddir yn y Adroddiad Perfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth am y corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Perfformiad na'r Adroddiad Atebolrwydd.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol neu ni chafwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad o ganghennau nad ymwelodd fy nhîm â hwy;
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Atebolrwydd a gaiff ei harchwilio yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;
- nid yw gwybodaeth a nodir gan Weinidogion Cymru ynghylch cydnabyddiaeth ariannol a thrafodion eraill wedi cael ei datgelu;
- nid yw datgeliadau penodol ynghylch cydnabyddiaeth ariannol a nodir gan Lawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF wedi cael eu gwneud neu nid yw rhannau o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff sydd i'w harchwilio yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu'n adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EF.

Cyfrifoldebau'r Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru am y datganiadau ariannol

Fel a esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru sy'n gyfrifol am:

- gadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi datganiadau ariannol ac Adroddiad Blynyddol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol ac am fod wedi'i argyhoeddi eu bod yn rhoi darlun gwir a theg;
- sicrhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol yn ei cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy;
- sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol;
- pa bynnag reolaethau mewnol sy'n angenrheidiol ym marn y Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru i allu paratoi datganiadau ariannol heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall;
- asesu gallu'r Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan y Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb yw archwilio'r datganiadau ariannol, eu hardystio ac adrodd arnynt yn unol â Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU wastad yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, yn golygu achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a nodir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi'r rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru sy'n ymwneud ag:
  - adnabod, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau a pha un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
  - canfod ac ymateb i'r risgiau o dwyll a pha un a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a hefyd
  - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a lle gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Yn rhan o'r drafodaeth hon, fe wnes i nodi'r potensial ar gyfer twyll yn y meysydd postio cyfnodolion anarferol;
- Cael dealltwriaeth am y fframwaith awdurdod sydd gan Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau

hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru; a

- Cael dealltwriaeth am berthnasoedd partïon cysylltiedig.

Yn ychwanegol at yr uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a ganfuwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol a phrofi yn erbyn dogfennaeth ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ynghylch ymgyfreithiad a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg; ac
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrthwneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu'n rhoi arwydd o wyrduedd bosibl; a gwerthuso'r rhesymeg fusnes dros unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes.

Fe wnes i hefyd gyfleu deddfau a rheoliadau dynodedig perthnasol a risgiau posibl o dwyll i holl aelodau'r tîm archwilio ac aros yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Effeithir ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, gan yr anhawster cynhenid o ran canfod afreolaidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, a natur, amseriad a hyd a lled y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Rwy'n gorfod ateb gofynion o ran cael tystiolaeth sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu gyda'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith pethau eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol yr wyf yn eu hadnabod yn ystod fy archwiliad.

Adroddiad

Nid oes unrhyw sylwadau gennyf i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
20 Medi 2024

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

Datganiadau Ariannol

Datganiad o'r Gwariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024

	Nodyn	2023-24 £ 000	2022-23 £ 000
Gwariant gweithredol			
Costau staff	2	1,336	1,119
Gwariant Gweithredol Arall	3	295	471
Eitemau anariannol	3	33	16
Darpariaeth a ddarparwyd / (Rhyddhau'r ddarpariaeth)	11	0	(67)
		1,664	1,539
Gweithgareddau cyllid			
Llog ariannol ar brydles	10	2	1
Gwariant net ar ôl llog		1,666	1,540
Incwm			
Grant a gafwyd gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu	4	(9)	0
Gwerthu dodrefn swyddfa	4	0	(2)
Gwariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn		**1,657**	**1,538**

Mae'r holl incwm a'r gwariant yn deillio o weithrediadau sy'n parhau.

Nid oes dim enillion na cholledion cydnabyddedig ar gyfer 2023-24 na 2022-23.

Mae'r Comisiynydd yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru.

Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024

	Nodyn	31 Mawrth 2024 £ 000	31 Mawrth 2024 £ 000	31 Mawrth 2023 £ 000	31 Mawrth 2023 £ 000
Asedau anghyfredol:					
Asedau Hawl-i-Ddefnyddio	**10**	62		78	
Eiddo, Offer a Chyfarpar	**5**	24		32	
Asedau anniriaethol	**6**	27		36	
Cyfanswm asedau anghyfredol			113		146
Asedau cyfredol:					
Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy erail	**7**	32		21	
Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod	**8**	57		71	
Cyfanswm asedau cyfredol			89		92
Cyfanswm asedau			202		238
Rhwymedigaethau cyfredol:					
Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill	**9**	(34)		(35)	
Prydles Hawl-i-Ddefnyddio	**10**	(16)		(10)	
Cyfanswm rhwymedigaeth-au cyfredol			(50)		(45)
Cyfanswm yr asedau ar ôl tynnu'r rhwymedigaethau cyfredol			152		193
Rhwymedigaethau anghyf-redol					
Darpariaethau	**11**	0		0	
Prydles Hawl-i-Ddefnyddio	**10**	(49)		(70)	
Cyfanswm rhwymedigaeth-au anghyfredol			(49)		(70)
Cyfanswm yr asedau ar ôl tynnu cyfanswm y rhwym-edigaethau			103		123
Ecwiti trethdalwyr			103		123
Cronfa wrth gefn gyffredinol			103		123

Kelly Davies[1]
Dirprwy Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru
19 Medi 2024

1 Gan fod cyfnod Heléna Herklots yn y swydd Comisiynydd wedi dod i ben ar 19 Awst 2024, Kelly Davies fydd yn llofnodi'r Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol yn ei rôl fel y Dirprwy Gomisiynydd a Swyddog Cyfrifyddu, yn unol â Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006.

Datganiad o'r Llif Arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024

	Note	31 Mawrth 2024 £ 000	31 Mawrth 2023 £ 000
Llif arian o weithgareddau gweithredol			
Gwariant gweithredol yn cynnwys llog		(1,666)	(1,540)
Addasiadau ar gyfer trafodion anariannol	**3**	33	16
Cynnydd / (gostyngiad) yn y ddarpariaeth	**11**	0	(97)
(Cynnydd)/gostyngiad yn y symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyni-adwy eraill	**7**	(11)	39
Cynnydd/(gostyngiad) yn y symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill	**9**	(1)	(33)
All-lif arian net o weithgareddau gweithredol		**(1,645)**	**(1,615)**
Llif arian o weithgareddau buddsoddi			
Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar	**5**	0	(29)
Prynu asedau anniriaethol	**6**	0	(6)
Enillion o werediadau		0	4
All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi		**0**	**(31)**
Llif arian o weithgareddau cyllido			
Asedau Hawl-i-Ddefnyddio; Taliadau prydles; llog	**10**	2	1
Asedau Hawl-i-Ddefnyddio; Taliadau prydles; cyfalaf	**10**	(17)	0
Incwm arall	**4**	9	0
Cyllid gan Lywodraeth Cymru		1,637	1,569
Cyllid net		**1,631**	**1,570**
Cynnydd/(gostyngiad) net mewn symiau cyfwerth ag arian parod am y cyfnod		**(14)**	**(76)**
Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod	**8**	**71**	**147**
Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod	**8**	**57**	**71**

Datganiad o'r Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024

	Cronfa Wrth Gefn Gyffredinol	
	1 Ebrill 2023-31 Mawrth 2024 £ 000	1 Ebrill 2022-31 Mawrth 2023 £ 000
Balans ar 1 Ebrill	123	92
Gwariant net	(1,657)	(1,538)
Cyfanswm incwm a chostau cydnabyddedig	(1,534)	(1,446)
Cyllid gan Lywodraeth Cymru	1,637	1,569
Balans ar 31 Mawrth	**103**	**123**

Nodiadau i'r Cyfrifon

1. Datganiad polisïau cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FreM) 2023-24. Mae'r polisïau cyfrifyddu a gynhwysir yn y FreM yn defnyddio Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u haddaswyd neu y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus.

Lle mae FreM yn caniatáu dewis o ran polisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y barnwyd sydd fwyaf priodol ar gyfer amgylchiadau penodol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru at ddibenion rhoi darlun cywir a theg. Disgrifir isod y polisïau penodol a fabwysiadwyd gan y Comisiynydd. Defnyddiwyd hwy'n gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

1.1 Confensiwn Cyfrifo

Paratowyd y cyfrifon hyn ar sail croniad o dan y confensiwn costau hanesyddol. Nid yw'r Comisiynydd wedi ailbrisio unrhyw ased gan nad oedd unrhyw addasiad ailbrisio yn berthnasol ym marn y Comisiynydd.

1.2 Incwm, Cyllid a Gwariant

Prif ffynhonnell gyllid y Comisiynydd yw Llywodraeth Cymru, a hynny ar ffurf dyraniad cyllid blynyddol.

Os yw cyfrifyddu yn seiliedig ar groniadau, mae'n golygu bod yr incwm a'r gwariant a ddatgelir yn y cyfrifon yn cael eu cyfrif yn y flwyddyn maent yn digwydd, nid pan mae taliadau ariannol yn cael eu gwneud neu eu derbyn.

Mae gwariant yn ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Mae swydd y Comisiynydd yn berthnasol i Gymru ac yn delio â materion sy'n effeithio ar bobl hŷn yng Nghymru. Dim ond un segment gweithredol sydd gan y Comisiynydd fel y gwelir yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr a'r nodiadau cysylltiedig.

Nid yw'r Comisiynydd wedi'i gofrestru ar gyfer TAW. Adroddir ar yr holl wariant gan gynnwys TAW lle bo hynny'n berthnasol, gan nad oes modd adennill TAW.

1.3 Eiddo, Offer a Chyfarpar

Isafswm lefel cyfalafu Eiddo, Offer a Chyfarpar yw £5,000 gan gynnwys TAW na ellir ei adennill.

Darperir dibrisiant ar gyfradd a gyfrifwyd i ddileu'r asedau drwy randaliadau cyfartal dros yr hyn a amcangyfrifir fel eu hoes ddefnyddiol. Caiff dibrisiant ei ddarparu o'r dyddiad mae oes ddefnyddiol yr ased yn dechrau.

Fel arfer, mae oes asedau fel a ganlyn:

Gwelliannau prydles	Tymor y brydles neu hyd at y cymal torri, hyd at uchafswm o 5 mlynedd
Offer swyddfa	5 mlynedd
Offer cysylltiedig â TG	5 mlynedd
Ased Hawl-i-Ddefnyddio	Tymor y brydles neu hyd at y cymal torri, hyd at uchafswm o 5 mlynedd

Mae Eiddo, Offer a Chyfarpar yn cael eu cynnwys ar eu cost, oherwydd ym marn y Comisiynydd, ni fyddai unrhyw addasiad sy'n codi o ailbrisio yn berthnasol.

Y Comisiynydd sy'n dal teitl pob eiddo. Mae'r holl eiddo a ddefnyddir gan y Comisiynydd ar brydles.

1.4 Asedau Anniriaethol

Isafswm lefel cyfalafu ased anniriaethol yw £5,000 gan gynnwys TAW na ellir ei adennill.

Cafodd trwyddedau meddalwedd, meddalwedd technoleg gwybodaeth a'r wefan eu cyfalafu fel asedau anniriaethol a'u hamorteiddio ar sail llinell syth dros gyfnod disgwyliedig eu hoes ddefnyddiol (pum mlynedd fel arfer).

1.5 Cyfnewid Arian Tramor

Caiff trafodion mewn arian tramor eu trosi i arian sterling ar y gyfradd gyfnewid sy'n gyfredol ar ddyddiad y trafodion unigol. Caiff imprestau arian tramor eu trosi i arian sterling ar y gyfradd gyfnewid sy'n gyfredol adeg cyllido.

1.6 Pensiynau

Mae'r Comisiynydd a staff a gyflogir yn uniongyrchol yn gymwys i fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Gellir ei ddisgrifio fel cynllun buddion diffiniedig heb ei gyllido ar gyfer sawl cyflogwr. Cofnodir cyfraniadau i'r cynllun ar y cyfrif gwariant net pan fyddant i'w talu yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Blwydd-daliadau Sifil .

http://www.civilservicepensionscheme.org.uk/

1.7 Rhagdaliadau

Mae'r Comisiynydd wedi mabwysiadu trothwy de minimis o £1,200 (£100 o dâl cyfatebol misol) er mwyn cydnabod rhagdaliadau. Bydd y tâl wedi'i broffilio yn cael ei ryddhau yn y mis y bydd y treuliau'n codi.

1.8 Tâl prydles gwerth isel

Mae gan y Comisiynydd un brydles tymor byr ar gyfer lle storio. Mae gwerth y brydles hon yn isel ac nid oes disgwyliad rhesymol i gyfnod y brydles bara mwy na deuddeg mis. Mae taliadau prydles felly'n cael eu cydnabod fel treuliau ac yn cael eu nodi yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar sail llinell syth.

1.9 Darpariaethau

Mae'r Comisiynydd yn darparu ar gyfer ymrwymiadau cyfreithiol neu gontractiol lle mae'r amseriad neu'r swm yn ansicr ar ddyddiad y datganiad o sefyllfa ariannol, ar sail yr amcangyfrif gorau o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r ymrwymiad.

1.10 Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod

Roedd y Comisiynydd wedi tynnu arian yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn, sy'n cael ei adneuo yng nghyfrif Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth ar ôl iddo ddod i law. Caiff arian ei dynnu i lawr i gyfrif banc masnachol er mwyn talu rhwymedigaethau fel y maent yn dod yn ddyledus. Mae arian mân yn cael ei gadw yn swyddfa'r Comisiynydd hefyd.

1.11 Buddion gweithwyr cyflogedig

Cydnabyddir cyflogau a chyfraniadau yswiriant gwladol gweithwyr cyflogedig presennol yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr wrth i wasanaethau'r gweithwyr gael eu cyflawni. Mae'r Comisiynydd yn rhoi cyfrif am wyliau blynyddol â thâl fel rhwymedigaeth lle disgwylir i'r iawndal am absenoldeb gael ei setlo o fewn deuddeg mis ar ôl diwedd y cyfnod y mae'r gweithwyr yn cyflawni eu gwasanaeth..

1.12 Asedau Hawl-i-Ddefnyddio

Mae IFRS 16 wedi disodli safon prydlesi presennol IAS 17 ac mae'n mynnu y dylid asesu contractau i gadarnhau a ydynt yn cyfleu'r hawl i ddefnyddio ased yn gyfnewid am ystyriaeth. Os ydynt, rhoddir cyfrif amdanynt yn unol ag IFRS16 gydag ased hawl-i-ddefnyddio a rhwymedigaeth prydlesi yn cael eu cydnabod ar y dyddiad cychwyn. Mae'r ased hawl-i-ddefnyddio yn cael ei fesur ar sail cost i ddechrau, sy'n cynnwys swm cychwynnol rhwymedigaeth y brydles a addaswyd ar gyfer costau uniongyrchol cychwynnol, rhagdaliadau a chymhellion.

Mae'r ased hawl-i-ddefnyddio, sydd yn y set hon o ddatganiadau ariannol yn ymwneud â phrydles y Comisiynydd ar gyfer y swyddfa ar y llawr gwaelod, yn cael ei ddibrisio gan ddefnyddio'r dull llinell syth o ddyddiad cychwyn y brydles hyd at ddiwedd cyfnod y brydles.

Mae rhwymedigaeth y brydles yn cael ei mesur i ddechrau ar sail gwerth presennol taliadau'r brydles nad ydynt yn cael eu talu ar y dyddiad cychwyn, eu disgowntio gan ddefnyddio'r gyfradd llog sydd ymhlyg yn y brydles neu, os nad yw'n rhwydd pennu'r gyfradd honno, gan ddefnyddio'r gyfradd benthyca cynyddrannol a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF. Gan nad oes cyfradd llog ymhlyg ym mhrydles y Comisiynydd ar gyfer y swyddfa, rydym yn parhau i ddefnyddio cyfradd ddisgownt Trysorlys Ei Fawrhydi o 3.51%.

1.13 Safonau Cyfrifyddu sydd wedi cael eu cyhoeddi ond nad ydynt wedi cael eu mabwysiadu eto.

Mae IAS 8 yn gofyn am ddatgelu mewn perthynas â safonau cyfrifyddu newydd, diwygiadau a dehongliadau sy'n berthnasol, neu a fydd yn berthnasol, ar ôl y cyfnod cyfrifyddu.

Ym marn y Comisiynydd, ni fydd unrhyw safonau sydd wedi eu cyhoeddi ac nad ydynt wedi cael eu rhoi ar waith eto yn effeithio ar y sefydliad.

2. Mae costau staff yn cynnwys:

	2023-24		2022-23	
	£000	£000	£000	£000
	Staff Parhaol	Staff Wrth Gefn	Cyfan-swm costau staff	Cyfanswm costau staff
Cyflogau	990	0	990	808
Costau Nawdd Cym-deithasol	103	0	103	91
Costau Pensiwn Eraill	243	0	243	220
Cyfanswm y costau	**1,336**	**0**	**1,336**	**1,119**

Mae dadansoddiad o gostau staff wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad ar Staff a Thaliadau ar dudalen 57.

3. Gwariant Gweithredol Arall

Mae gwariant gweithredol arall yn cynnwys:

	Nodyn	2023-24	2022-23
		£000	£000
Technoleg gwybodaeth		76	91
Rhaglenni Penodol		59	97
Ffioedd proffesiynol		56	48
Costau gweinyddol eraill		39	65
Hyfforddiant a datblygu		13	8
Costau eraill o ran llety		16	62
Rhentu o dan brydlesi gweithredol		4	72
Teithio a chynhaliaeth		4	3
Ffioedd archwilio – Archwiliad allanol		19	16
Ffioedd archwilio – Archwiliad mewnol		9	9
		295	**471**
Eitemau anariannol:			
Dibrisiant ased hawl-i-ddefnyddio	10	16	1
Colled ar waredu Offer Diogelu Personol (PPE)	5	1	2
Dibrisiant PPE	5	7	4
Amorteiddio asedau anniriaethol	6	9	9
		33	**16**
Cyfanswm		**328**	**487**

Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad o'r gwariant ar gyflawni fy nghynllun strategol, a phrosiectau untro uchel eu gwerth eraill.

Maes blaenoriaeth strategol	£000
Diogelu a hyrwyddo hawliau pobl hŷn	16
Atal Cam-drin Pobl Hŷn	6
Galluogi pawb i Heneiddio'n Dda	15
Rhoi Diwedd ar Oedraniaeth a Gwahaniaethu ar Sail Oedran	4
Cynhyrchu adnoddau hygyrch	6
Ymchwiliad Covid 19 – Ffioedd Cyfreithiol	12
Rhaglenni Penodol	**59**

Nid yw'r gwariant a ddatgelwyd uchod yn cynnwys dosrannu unrhyw gostau cyflog staff y Comisiynydd, ac mae'n adlewyrchu costau uniongyrchol ychwanegol yn unig.

4. Incwm arall

	Nodyn	2023-24	2022-23
		£000	£000
Grant a gafwyd gan Heddlu De Cymru		9	0
Gwerthu dodrefn swyddfa		0	2
Cyfanswm y costau		9	2

Cafodd y Comisiynydd gyllid gan Heddlu De Cymru fel cyfraniad tuag at wella cadernid seiber y sefydliad.

5. Eiddo, Offer a Chyfarpar

	Offer Swyddfa £000	Gwelliannau Prydles £000	Cyfanswm £000
Cost neu brisiad			
Ar 1 Ebrill 2023	**8**	**30**	**38**
Ychwanegiadau	0	0	0
Gwarediadau	(2)	0	(2)
Ar 31 Mawrth 2024	**6**	**30**	**36**
Dibrisiant ac Amhariad			
Ar 1 Ebrill 2023	**5**	**1**	**6**
Taliadau a godwyd yn ystod y flwyddyn	1	6	7
Gwarediadau	(1)	0	(1)
Ar 31 Mawrth 2024	**5**	**7**	**12**

Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2024	**1**	**23**	**24**
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2023	3	29	32

Ni amharwyd ar unrhyw asedau ac fe'u dangosir ar gost yr ystyrir ei fod yn 'werth teg'.

6. Asedau Anniriaethol

	Trwyddedau Meddalwedd £000	Technoleg Gwybodaeth £000	Gwefan £000	Cyfanswm £000
Cost neu brisiad				
Ar 1 Ebrill 2023	**46**	**64**	**36**	**146**
Ychwanegiadau	0	0	0	0
Gwarediadau	0	0	0	0
Ar 31 Mawrth 2024	**46**	**64**	**36**	**146**
Amorteiddiad				
Ar 1 Ebrill 2023	**46**	**57**	**7**	**110**
Taliadau a godwyd yn ystod y flwyddyn	0	2	7	9
Gwarediadau	0	0	0	0
Ar 31 Mawrth 2024	**46**	**59**	**14**	**119**

Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2024	**0**	**5**	**22**	**27**
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2023	0	7	29	36

Ni amharwyd ar unrhyw asedau ac fe'u dangosir ar gost yr ystyrir ei fod yn 'werth teg'.

7. Symiau masnach derbyniadwy

	31 Mawrth 2024 £000	31 Mawrth 2023 £000
Symiau a ddaw'n ddyledus o fewn blwyddyn:		
Dyledwyr masnach	9	5
Rhagdaliadau ac incwm cronedig	23	16
	32	**21**

Rhagdaliad yw swm sy'n cael ei dalu ymlaen llaw, fel arfer am eitemau fel ardrethi neu rent. Caiff ei gydnabod fel ased i ddechrau ac fe gaiff ei osod fel treuliau yn y cyfnod pan dderbynnir y buddiant.

Nid oedd symiau derbyniadwy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn.

8. Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod

	2023-24 £000	2022-23 £000
Balans ar 1 Ebrill	**71**	**147**
Newid net mewn balansau arian parod a chyfwerth ag arian parod	**(14)**	**(76)**
Balans ar 31 Mawrth	**57**	**71**
Roedd y balansau canlynol ar 31 Mawrth yn cael eu dal yn:		
Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth	**52**	**1**
Banciau masnachol ac arian mewn llaw	**5**	**70**
Balans ar 31 Mawrth	**57**	**71**

9. Symiau Masnach Taladwy a Rhwymedigaethau Eraill

	31 Mawrth 2024 £000	31 Mawrth 2023 £000
Symiau a ddaw'n ddyledus o fewn blwyddyn		
Symiau masnach taladwy	4	6
Croniadau	30	29
Balans ar 31 Mawrth	**34**	**35**

10. Asedau Hawl-i-Ddefnyddio

Mae gan y Comisiynydd un brydles pum mlynedd ar gyfer swyddfa fach yn Adeiladau Cambrian, Caerdydd. Dechreuodd y brydles ar 4 Awst 2023.

	Adeiladau £000	Cyfanswm £000
Prisiad ar 31 Mawrth 2023	79	79
Ychwanegiadau	0	0
Gwarediadau	0	0
Balans ar 31 Mawrth 2024	**79**	**79**
Dibrisiant ar 31 Mawrth 2023	1	1
Ffioedd am y flwyddyn	16	16
Gwarediadau	0	0
Balans ar 31 Mawrth 2024	**17**	**17**
Gwerth Net ar y Llyfrau ar 31 Mawrth 2024	**62**	**62**
Gwerth Net ar y Llyfrau ar 31 Mawrth 2023	78	78

Dadansoddiad Aeddfedrwydd

	31 Mawrth 2024 £000	31 Mawrth 2023 £000
Llifoedd arian contractiol heb eu disgowntio sy'n ymwneud â rhwymedigaethau prydles		
O fewn blwyddyn	19	13
Rhwng blwyddyn a phum mlynedd	51	74
Ar ôl pum mlynedd	0	0
Swm	**70**	**87**
Llai taliadau yn y dyfodol a ddyrannwyd i gyfnodau yn y dyfodol	**(5)**	**(7)**
Isafswm taliadau prydles	**65**	**80**
Wedi'i gynnwys yn y		
Symiau masnach taladwy cyfredol	16	10
Symiau masnach taladwy anghyfredol	49	70
	65	**80**

Swm a gydnabyddir yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr	**2024**	**2023**
Dibrisiant	16	1
Llog ar rwymedigaethau prydlesau	2	1

Swm a gydnabyddir yn y Datganiad Llifoedd Arian (net o TAW na ellir ei hadennill)	**2024**	**2023**
Costau llog	2	1
Ad-dalu prifswm ar brydlesau	(17)	0
Cyfanswm llif arian	**(15)**	**1**

Yn Natganiadau Ariannol 2022/23 y Comisiynydd, datgelwyd y wybodaeth hon yn nodiadau 4 a 10.

11. Darpariaeth ar gyfer Rhwymedigaethau a Ffioedd

	31 Mawrth 2024 £000	31 Mawrth 2023 £000
Balans ar 1 Ebrill	0	97
Darparwyd yn y flwyddyn	0	0
Darpariaeth a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn	0	(30)
Darpariaeth a ryddhawyd	0	(67)
Balans ar 31 Mawrth	**0**	**0**

Roedd y ddarpariaeth hon yn ymwneud yn gyfan gwbl â'r tâl dadfeiliad ar gyfer swyddfa flaenorol y Comisiynydd ar drydydd llawr Adeiladau Cambrian. Ar ôl i'r brydles ddod i ben, llwyddodd y Comisiynydd i gytuno ar ffi llawer llai na'r hyn a amcangyfrifwyd gan syrfëwr meintiau.

Nid yw prydles presennol y Comisiynydd yn cynnwys cymal dadfeilio; felly nid oes darpariaeth wedi'i chydnabod.

12. Offerynnau Ariannol

Mae gofynion ariannol y Comisiynydd yn cael eu diwallu drwy gyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Oherwydd hyn, nid yw'r Comisiynydd yn wynebu llawer o risgiau o ran hylifedd.

Mae'r rhan fwyaf o offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau i brynu eitemau anariannol, yn unol â gofynion disgwyliedig y Comisiynydd o ran prynu a defnyddio. O ganlyniad, nid yw'r Comisiynydd yn agored i fawr ddim risg o ran credyd, hylifedd, cyfraddau llog nac arian tramor.

Does dim gwahaniaeth gwirioneddol rhwng y gwerth ar y llyfrau a gwerth teg rhwymedigaethau ac asedau ariannol y sefydliad ar 31 Mawrth 2024 (31 Mawrth 2023: £dim).

13. Prydlesi cyllid a chontractau PFI

Nid oes rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllid na chontractau PFI (2022-23: dim). Nid yw'r Comisiynydd wedi ymrwymo i gontractau na ellir eu canslo sy'n brydlesi neu'n gontractau PFI (2022-23: dim).

14. Rhwymedigaethau amodol a ddatgelir dan IAS 37

Nid oes gan y Comisiynydd unrhyw rwymedigaethau amodol nad ydynt yn cael eu datgelu yn rhywle arall yn y cyfrifon hyn (2022-23: dim).

15. Trafodion partïon cysylltiedig

Yn 2023-24 derbyniodd y Comisiynydd gyllid o £1,637,000 gan Lywodraeth Cymru (2022-23: £1,568,750).

Ystyrir Llywodraeth Cymru yn barti cysylltiedig.

Yn ystod 2023-24, ni fu'r Comisiynydd, nac unrhyw aelod arall o'r Uwch Dîm Rheoli, nac unrhyw aelod o'u teuluoedd, yn ymwneud yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol ag unrhyw drafodion gyda'r swyddfa yn ystod y flwyddyn, ac eithrio'r taliadau cyflog a'r hawliadau arferol am dreuliau.

17. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Ni chafwyd digwyddiadau o bwys rhwng diwedd y flwyddyn ac adeg cymeradwyo'r cyfrifon hyn.

Cafodd y datganiadau ariannol hyn eu hawdurdodi i'w cyhoeddi gan Kelly Davies ar 19 Medi 2024.[1]

1 Gan fod cyfnod Heléna Herklots yn y swydd Comisiynydd wedi dod i ben ar 19 Awst 2024, Kelly Davies fydd yn llofnodi'r Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol yn ei rôl fel y Dirprwy Gomisiynydd a Swyddog Cyfrifyddu, yn unol â Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006..

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales